# Archwiliad â ffocws o'r ffordd y mae awdurdodau lleol yn gweithredu gwasanaethau gorfodi cyfraith bwyd anifeiliaid yn rhanbarthol yng Nghymru

## Mawrth 2022

## Rhagair

Mae archwilio gwasanaethau gorfodi awdurdodau lleol o ran cyfraith bwyd anifeiliaid yn rhan o drefniadau'r Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) i wella diogelwch a hyder defnyddwyr mewn perthynas â bwyd anifeiliaid a bwyd. Mae bwyd anifeiliaid diogel a maethlon yn hanfodol ar gyfer iechyd anifeiliaid a diogelwch bwydydd sy'n dod o anifeiliaid.

Datblygwyd y rhaglen archwilio hon i asesu sut roedd awdurdodau lleol yn bodloni eu rhwymedigaethau i weithredu rheolaethau swyddogol ar fwyd anifeiliaid yn unol â gofynion statudol, ac i roi sicrwydd bod y model gweithredu bwyd anifeiliaid rhanbarthol yng Nghymru wedi'i roi ar waith yn effeithiol. Roedd y broses archwilio hefyd yn gyfle i nodi a rhannu arferion da a chynnig gwybodaeth er mwyn hysbysu polisi'r ASB ar weithredu a gorfodi cyfraith bwyd anifeiliaid.

Roedd y rhaglen archwilio yn asesu cydymffurfiaeth awdurdodau lleol â'r Safon Gorfodi Cyfraith Bwyd a Bwyd Anifeiliaid o fewn y Cytundeb Fframwaith ar Reolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd gan Awdurdodau Lleol (Cytundeb Fframwaith), a gofynion Rheoliad Rheolaethau Swyddogol (UE) 2017/625. Aseswyd dulliau gweithredu awdurdodau lleol yn erbyn gofynion deddfwriaeth bwyd anifeiliaid gan gynnwys Deddf Amaethyddiaeth 1970, Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Hylendid, Samplu ac ati a Gorfodi) (Cymru) 2016 a Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid a Bwyd Swyddogol (Cymru) 2009.

Cynhaliwyd asesiadau hefyd yn erbyn Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd Anifeiliaid (Cymru) 2014 ynghyd â chanllawiau cysylltiedig a gyhoeddir yn ganolog gan gynnwys Canllawiau Ymarfer Cyfraith Bwyd Anifeiliaid (Cymru) 2016.

Mae'r ASB yn ddiolchgar i bob awdurdod lleol, gan gynnwys swyddogion arweiniol rhanbarthol bwyd anifeiliaid (RLFO), am eu cydweithrediad a'u cymorth wrth rannu eu barn yn ystod camau datblygu'r rhaglen archwilio hon, am roi'r wybodaeth y gofynnwyd amdani cyn pob archwiliad rhanbarthol, ac am ymgysylltu yn ystod y broses archwilio.

Er hwylustod, mae Atodiad A yn cynnwys rhestr o dermau technegol a ddefnyddir yn yr adroddiad archwilio hwn.

Mae'r adroddiad hwn ar gael fel copi caled gan Dîm Diogelu Defnyddwyr yr ASB, Llawr 11, Tŷ Southgate, Wood Street, Caerdydd, CF10 1EW, Ffôn: 029 2067 8999, ac yn electronig ar wefan yr ASB.

# Cynnwys

**1.0 Cyflwyniad**

Cefndir
Y Rheswm dros yr Archwiliad
Cwmpas y Rhaglen Archwilio

**2.0 Crynodeb Gweithredol**

**3.0 Canfyddiadau'r Archwiliad**

**3.1 Trefnu a Rheoli**

Dyraniad Ariannol
Dyraniad Staff
Grwpiau Cyswllt
Adolygu Perfformiad

**3.2 Awdurdodi a Hyfforddi Swyddogion**

Nifer y Swyddogion Awdurdodedig

Awdurdodi a Hyfforddi

**3.3 Ymyriadau ac Arolygiadau, Cofnodion ac Adroddiadau Sefydliadau Bwyd Anifeiliaid**

Seilio Rheolaethau ar Risg

Y Cynllun Cydnabyddiaeth ar Sail Perfformiad

Gweithdrefnau Ymyrryd

Cofnodion ac Adroddiadau Ymyrryd

**3.4 Cronfeydd Data Sefydliadau Bwyd Anifeiliaid**

**3.5 Samplu Bwyd Anifeiliaid**

Polisi Samplu Bwyd Anifeiliaid

Rhaglen Samplu Bwyd Anifeiliaid

Gweithdrefnau Samplu Bwyd Anifeiliaid

Canlyniadau Samplu Bwyd Anifeiliaid Anfoddhaol

**3.6 Digwyddiadau Bwyd Anifeiliaid**

**3.7 Gorfodi**

Polisi Gorfodi

Gweithdrefnau Gorfodi

Camau Gorfodi

**3.8 Monitro Mewnol**

**4.0 Casgliadau**

**5.0 Crynodeb o’r Argymhellion**

**Atodiad A – Rhestr o Dermau**

**Atodiad B – Cylch Gorchwyl**

**Atodiad C – Methodoleg**

**Atodiad D – Barn Archwilio**

## 1.0 Cyflwyniad

Cefndir

1.1 Yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) yw'r Awdurdod Cymwys Canolog sy'n gyfrifol am gyfraith diogelwch a safonau bwyd anifeiliaid, ac am sicrhau bod rheolaethau swyddogol sy'n seiliedig ar risg yn cael eu cynnal mewn sefydliadau busnesau bwyd anifeiliaid yng Nghymru.

1.2 Mae rheolaethau swyddogol ar fwyd anifeiliaid, sydd â'r nod o wirio cydymffurfiaeth busnesau bwyd anifeiliaid, yn hanfodol i ddiogelu iechyd anifeiliaid ac iechyd y cyhoedd. Maent hefyd yn cyfrannu at ganlyniad strategol yr ASB sef bod 'bwyd yn ddiogel ac yn cyd-fynd â'r hyn sydd ar y label'.

1.3 Awdurdodau lleol yng Nghymru sy'n gyfrifol am fonitro a gorfodi cydymffurfiaeth busnesau bwyd anifeiliaid o ddydd i ddydd. Yn hanesyddol, roedd awdurdodau lleol yn cael eu hariannu i gynnal gwaith bwyd anifeiliaid fel rhan o Grant Cynnal Refeniw'r awdurdod lleol.

1.5 Yn 2009 a 2011, nodwyd diffygion sylweddol gan archwiliadau Swyddfa Bwyd a Milfeddygaeth y Comisiwn Ewropeaidd (CE) o drefniadau'r Deyrnas Unedig (DU) o ran gweithredu rheolaethau swyddogol ar fwyd anifeiliaid, a oedd yn cynnwys ymweliadau gwirio â Chymru. Roedd archwiliadau â ffocws yr ASB a ffurflenni data bwyd anifeiliaid a gyflwynwyd i'r ASB hefyd yn dangos bod angen i awdurdodau lleol weithredu rheolaethau swyddogol ar fwyd anifeiliaid yn fwy effeithiol.

1.5 Ym mis Gorffennaf 2014, cyhoeddodd yr ASB adroddiad o'r enw "Gorfodi Cyfraith Bwyd a Bwyd Anifeiliaid yng Nghymru", lle mynegwyd pryderon am y modd y mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn gweithredu rheolaethau swyddogol ar fwyd anifeiliaid. Arweiniodd yr adroddiad at newidiadau i'r model ariannu a gweithredu ar gyfer bwyd anifeiliaid yng Nghymru. Yn seiliedig ar fodel a gynigiwyd gan Gyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd yng Nghymru ac amcangyfrif o'r costau gan yr ASB, cytunodd Gweinidogion Cymru y dylid tynnu £490,000 o'r Grant Cynnal Refeniw ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru bob blwyddyn o 1 Ebrill 2015 ymlaen. Wedi hynny, roedd y cyllid hwn ar gael i'r ASB allu cyfarwyddo a chefnogi awdurdodau lleol a phartneriaid eraill i weithredu gwasanaethau gorfodi bwyd anifeiliaid yng Nghymru.

1.6 Ers mis Ebrill 2015, mae rheolaethau swyddogol ar fwyd anifeiliaid wedi'u gweithredu ar sail ranbarthol yng Nghymru, tra bo pob awdurdod lleol yn

parhau i gynnal ei strwythurau rheoli a'i weithdrefnau penderfynu ei hun. Mae'r 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru yn gweithredu o fewn chwe rhanbarth, ac mae gan bob un ohonynt RLFO dynodedig. Mae awdurdodau lleol yn cydweithio â'i gilydd gyda'r ASB yn eu goruchwylio.

**Ffigur 1 – Map o Gymru yn dangos yr awdurdodau lleol yn unol â'r rhanbarth bwyd anifeiliaid**

**Allwedd ar gyfer y Rhanbarthau sy'n gweithredu'r Model Gweithredu Bwyd Anifeiliaid yng Nghymru:**

**Gogledd Cymru**


**Canolbarth a Gorllewin Cymru**

**Gwent**

**Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir**

**Cwm Taf**

**Abertawe, Castell-nedd Port Talbot**



### Y Rheswm dros yr Archwiliad

1.7 Mae'n ofynnol i'r ASB fonitro ac archwilio gwasanaethau gorfodi cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid awdurdodau lleol o dan Ddeddf Safonau Bwyd 1999, Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009 a Rheoliad Rheolaethau Swyddogol (UE) 2017/625. Wrth ddatblygu ei threfniadau archwilio, mae'r ASB wedi ystyried canllawiau'r Comisiwn Ewropeaidd ar sut y dylai archwiliadau o'r fath gael eu cynnal.

1.8 Datblygwyd y rhaglen archwilio hon i asesu sut roedd awdurdodau lleol yn bodloni eu rhwymedigaethau o ran gweithredu rheolaethau swyddogol ar fwyd anifeiliaid yn unol â gofynion statudol. Cynhaliwyd archwiliadau o dan y ddeddfwriaeth y cyfeirir ati uchod i roi sicrwydd bod awdurdodau lleol wedi rhoi'r model gweithredu bwyd anifeiliaid rhanbarthol yng Nghymru, sydd wedi bodoli ers mis Ebrill 2015, ar waith yn effeithiol.

1.9 Fel rhan o'r gwaith o ddatblygu'r rhaglen archwilio, ymgynghorodd yr ASB â rhanddeiliaid perthnasol a llunio dogfen cylch gorchwyl sydd i'w gweld yn Atodiad B.

### Cwmpas y Rhaglen Archwilio

1.10 Mae rhestr o'r awdurdodau lleol a ddewiswyd ar gyfer archwiliadau ar y safle i'w gweld yn nhabl 1 isod, ynghyd â dyddiad yr archwiliad.

**Tabl 1 – Rhaglen Archwilio Bwyd Anifeiliaid**

| Rhanbarth | Awdurdod cydgysylltiedig | Awdurdod arall o fewn y rhanbarth | Dyddiad |
|---|---|---|---|
| **Gogledd Cymru** | Wrecsam | Gwynedd | Tach 19 |
| **Cwm Taf** | Rhondda Cynon Taf | Merthyr Tudful | Rhag 19 |
| **Gwent** | Casnewydd | Sir Fynwy | Ion 20 |
| **Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir** | Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir | Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir | Chwef 20 |
| **Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot** | Castell-nedd Port Talbot | Abertawe | Wedi'i ganslo oherwydd |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | y pandemig |
| **Canolbarth a Gorllewin Cymru** | Powys | Sir Benfro | Wedi’i ganslo oherwydd y pandemig |

1.11 Dewiswyd sampl o awdurdodau lleol ar gyfer archwiliadau ar y safle o’r chwe rhanbarth bwyd anifeiliaid yng Nghymru. Roeddent hefyd yn cynnwys yr holl awdurdodau cydgysylltiedig lle’r oedd pob RLFO wedi’i leoli. Gohiriwyd archwiliadau mewn dau o’r chwe rhanbarth i ddechrau oherwydd bod rhaid i awdurdodau lleol ymateb i bandemig Covid-19. Cawsant eu canslo wedyn.

1.12 Roedd yr ymweliadau archwilio ar y safle yn cynnwys asesu’r trefniadau ar gyfer cynllunio, gweithredu ac adolygu gwasanaethau, rôl swyddogion RLFO, awdurdodiadau a chymhwysedd swyddogion, ymyriadau a’u heffeithiolrwydd, camau gorfodi, digwyddiadau bwyd anifeiliaid a samplu bwyd anifeiliaid. Mae Atodiad C yn cynnwys methodoleg y gwaith archwilio.

1.13 Nod yr archwiliadau ar y safle oedd dilysu’r wybodaeth a roddwyd gan yr awdurdodau lleol hyn. Roeddent hefyd yn rhoi’r cyfle i nodi a rhannu arferion da a chynnig gwybodaeth er mwyn hysbysu polisi’r ASB ar weithredu a gorfodi cyfraith bwyd anifeiliaid.

1.14 Cyhoeddwyd adroddiadau archwilio rhanbarthol gydag argymhellion ynghyd ag unrhyw enghreifftiau o arferion da. Roedd y rhain yn cynnwys asesiad sicrwydd ar gyfer pob rhanbarth. Mae trosolwg o’r categorïau sicrwydd yn Atodiad D. Datblygwyd cynlluniau gweithredu i sicrhau gwelliannau gan bob un o’r rhanbarthau a archwiliwyd.

## 2.0 Crynodeb Gweithredol

2.1 Yn dilyn mabwysiadu model gweithredu rhanbarthol ar gyfer rheolaethau swyddogol ar fwyd anifeiliaid yng Nghymru yn ystod 2015, sefydlwyd y rhaglen archwilio hon i asesu a oedd awdurdodau lleol yn gweithredu rheolaethau swyddogol ar fwyd anifeiliaid yn effeithiol yn unol â gofynion statudol.

2.2 Nododd yr archwiliad drefniadau cydgysylltu effeithiol rhwng awdurdodau lleol a rhanbarthau ledled Cymru, gyda'r awdurdodau lleol yr ymwelwyd â hwy mewn perthynas â gweithgareddau bwyd anifeliaid ym mhob rhanbarth wedi cydweithredu'n dda.

2.3 Ers i'r model rhanbarthol gael ei roi ar waith, roedd cynnydd cyffredinol yn nifer y swyddogion cyfwerth ag amser llawn sy'n ymwneud â gwaith bwyd anifeiliaid yn y pedwar rhanbarth a archwiliwyd. Mae'n debygol bod y cynnydd mewn swyddogion cyfwerth ag amser llawn wedi deillio o'r newid cysylltiedig yn y mecanwaith ariannu. Mae hyn yn golygu bod cyllid yn cael ei ddyrannu i awdurdodau lleol yn seiliedig ar ymyriadau a gyflawnir. Mae mwy o swyddogion bellach ar gael yn y rhan fwyaf o awdurdodau i gyflawni dyletswyddau bwyd anifeiliaid. Yn aml, maent yn cyfuno gwaith sy'n ymwneud â bwyd anifeiliaid â swyddogaethau rheoleiddio eraill, gan gynyddu lefelau gwytnwch yn y maes gwaith arbenigol hwn. Fodd bynnag, cyfran isel o'u hamser a dreuliodd swyddogion ar waith a oedd yn ymwneud â bwyd anifeiliaid. Roedd hyn yn gyson â phryderon a godwyd mewn gweithgareddau archwilio blaenorol. Mae'r diffyg amser hwn yn cynyddu'r risg na fydd swyddogion yn gallu ennill na chynnal digon o brofiad i gyflawni rheolaethau swyddogol ar fwyd anifeiliaid yn gyson ac yn effeithiol. Gwelwyd tystiolaeth i ddangos bod rheolaethau swyddogol yn cael eu gweithredu'n anghyson mewn sawl maes allweddol.

2.4 Roedd RLFOs yn ymwneud ag asesu cymhwysedd swyddogion bwyd anifeiliaid ym mhob rhanbarth at ddibenion awdurdodi. Fodd bynnag, nid oedd gan bob awdurdod lleol weithdrefnau cofnodedig ar gyfer awdurdodi swyddogion. Lle'r oedd gweithdrefnau awdurdodi'n bodoli, roedd angen eu datblygu ymhellach a'u rhoi ar waith yn fwy cyson er mwyn sicrhau bod yr holl swyddogion bwyd anifeiliaid yn cael eu hawdurdodi ar sail eu cymhwysedd.

2.5 Nododd adolygiad o ansawdd data cronfeydd data bwyd anifeiliaid fod gweithgareddau glanhau data gan awdurdodau lleol i gael gwared ar fusnesau bwyd anifeiliaid wedi'u heithrio a chofnodion dyblyg, ac i wella cywirdeb a chadw cofnodion yn gyfredol yn y cronfeydd data bwyd anifeiliaid, wedi'u cynnal yn dda ar y cyfan heb lawer o wallau. Ymrwymodd awdurdodau lleol i ymchwilio i'r gwallau a nodwyd a'u datrys.

2.6 Roedd y pedwar rhanbarth a archwiliwyd wedi cynnal y nifer bwriadedig o arolygiadau fel rhan o raglen wedi'i thargedu yn seiliedig ar risg, gyda rhywfaint o amrywiaeth yn y math o weithgarwch. Roeddent yn rhesymol ac yn adlewyrchu penderfyniadau a wnaed gan awdurdodau mewn ymateb i newidiadau mewn busnesau a gweithgareddau masnachu ym mhob ardal. Fodd bynnag, nid oedd bob amser yn bosibl nodi i ba sefydliadau roedd pob ffurflen hawlio ariannol i'r ASB yn berthnasol.

2.7 Er bod ffurflenni ymyrryd cyffredinol ar waith i gofnodi sylwadau swyddogion, byddai gwelliannau i weithdrefnau ymyrryd cofnodedig yn sicrhau dull gweithredu mwy cyson o fewn rhanbarthau. Roedd y defnydd o'r cynllun cydnabyddiaeth ar sail perfformiad yn amrywio wrth i faterion gyda chronfeydd data ac anghysondeb wrth lunio adroddiadau eithrio'n effeithio ar ei weithredu effeithiol.

2.8 Roedd cofnodion arolygu yn dangos bod asesiad trylwyr o gydymffurfiaeth busnesau wedi'i gynnal yn ystod y rhan fwyaf o ymyriadau bwyd anifeiliaid. Fodd bynnag, nodwyd nifer o welliannau posibl er mwyn sicrhau cysondeb o ran arolygu, cofnodi a chadw gwybodaeth busnesau bwyd anifeiliaid ac arsylwadau arolygu. Roedd adroddiadau i fusnesau'n fwy amrywiol gyda'r mwyafrif o adroddiadau'n cynnwys y rhan fwyaf o'r wybodaeth ofynnol. Fodd bynnag, roedd sawl enghraifft lle na ddarparwyd gwybodaeth. Byddai adroddiadau'n elwa ar adolygiad i sicrhau eu bod yn cynnwys yr holl wybodaeth angenrheidiol. Lle'r oedd angen cymryd camau pellach yn sgil arolygiadau, roedd hyn wedi'i wneud mewn modd priodol ar gyfer y rhan fwyaf o fusnesau.

2.9 Roedd rhanbarthau wedi cynnal y rhaglenni samplu arfaethedig, neu wedi cynnal cymaint o raglenni â phosibl yn unol â newidiadau yn y marchnadoedd masnachu rhanbarthol. Nodwyd tri maes o arferion da yn ymwneud â pholisïau a gweithdrefnau samplu. Fodd bynnag, nodwyd bod angen gwelliannau i sicrhau cysondeb y dull gweithredu a'r ddogfennaeth. Nodwyd bod angen gwelliannau er mwyn cynyddu cysondeb gwaith ymchwilio a gorfodi mewn perthynas â chanlyniadau samplau anfoddhaol.

2.10 Er nad oedd llawer o ddigwyddiadau lle bu angen i wasanaethau bwyd anifeiliaid rhanbarthol gymryd camau gweithredu, yn yr achosion hynny lle bu angen camau gweithredu o'r fath, gwnaed hyn yn effeithiol. Nid oedd yr holl weithdrefnau digwyddiadau bwyd anifeiliaid wedi'u dogfennu ac roedd angen datblygu rhai ohonynt ymhellach i sicrhau cysondeb.

2.11 Ychydig o gamau gorfodi ffurfiol a gymerwyd ac roedd y rhain yn briodol ac, yn gyffredinol, wedi'u cynnal yn unol â'r gofynion. Nid oedd rhai rhanbarthau wedi cynnal gweithgarwch gorfodi bwyd anifeiliaid ffurfiol. Roedd pob rhanbarth wedi datblygu polisïau gorfodi ond yn gyffredinol, roedd angen eu gwella er mwyn sicrhau bod yr holl feini prawf ar gyfer gorfodi bwyd

anifeiliaid yn cael eu cynnwys. Mae perygl bod diffyg meini prawf digonol ar gyfer gwneud penderfyniadau yn effeithio ar faint o gamau gorfodi ffurfiol a roddir ar waith. Er bod enghreifftiau unigol o weithdrefnau gorfodi cofnodedig a oedd yn cwmpasu'r holl opsiynau gorfodi bwyd anifeiliaid, nid oedd y rhain, at ei gilydd, wedi'u datblygu ledled y rhanbarthau.

2.12 Mae RLFOs yn ymgymryd â gwaith monitro meintiol mewnol o'r rhaglen gweithredu bwyd anifeiliaid. Maent yn rhoi adroddiadau chwarterol i'r ASB yng Nghymru ac yn manylu ar y cynnydd wrth gyflawni'r targed o ran nifer yr arolygiadau a bennir yn y rhaglen waith bwyd anifeiliaid. Cynhaliwyd rhywfaint o fonitro ansoddol ym mhob rhanbarth gyda chymysgedd o weithgarwch monitro rhanbarthol a lleol. Fodd bynnag, roedd angen gwelliannau er mwyn sicrhau mwy o gysondeb, cymhwysedd swyddogion a sicrhau bod canlyniadau'n cael eu cofnodi. Roedd y gwaith datblygu a gweithredu gweithdrefnau monitro mewnol cofnodedig yn amrywio ac roedd angen eu gwella er mwyn sicrhau ansawdd a chysondeb y rheolaethau a gyflawnir gan swyddogion awdurdodedig.

2.13 Mae gwaith gweithredu rheolaethau swyddogol ar fwyd anifeiliaid yng Nghymru wedi gwella'n sylweddol ers cyflwyno model gweithredu bwyd anifeiliaid newydd ym mis Ebrill 2015. Aseswyd bod pob un o'r pedwar rhanbarth a archwiliwyd yn rhoi sicrwydd cymedrol bod gofynion cyflenwi gwasanaethau'n cael eu bodloni. Fodd bynnag, mae angen gwelliannau pellach er mwyn dangos dull gweithredu gwasanaethau cwbl effeithiol, gan gynnwys gweithio rhanbarthol gwell i gael cysondeb.

## 3.0 Canfyddiadau'r Archwiliad

### 3.1 Trefnu a Rheoli

**Dyraniad Ariannol**

3.1.1 Ers mis Ebrill 2015, trosglwyddwyd y gyllideb o £490,000 ar gyfer gwaith gweithredu bwyd anifeiliaid o Lywodraeth Cymru i'r ASB yng Nghymru, a hynny ar sail flynyddol a pharhaus. Gwnaed hyn er mwyn cyfarwyddo a chefnogi swyddogion awdurdodau lleol i weithredu rheolaethau swyddogol ar fwyd anifeiliaid yn rhanbarthol.

3.1.2 Mae'r cyllid sydd ar gael i bob rhanbarth yn seiliedig i raddau helaeth ar y nifer a'r math o sefydliadau bwyd anifeiliaid yn y rhanbarth, er mwyn gallu targedu adnoddau'n briodol at yr ardaloedd lle mae'r galw mwyaf a mabwysiadu dull sy'n seiliedig ar risg.

3.1.3 Cytunwyd ar gostau uned ar gyfer arolygiadau. Mae'r costau hyn yn cynnwys costau staffio, teithio, cynhaliaeth a thechnoleg gwybodaeth. Mae cyllideb ar gael i bob un o'r chwe rhanbarth bwyd anifeiliaid ar gyfer eu rhaglen arolygu y cytunwyd arni. Cynigir cyllideb hefyd ar gyfer RLFOs, gwaith samplu, a rheolaethau mewnforio. Mae'r ASB yn hwyluso ac yn cynnig hyfforddiant i swyddogion bwyd anifeiliaid.


3.1.4 Bob blwyddyn, cytunir ar Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng yr ASB a phob rhanbarth bwyd anifeiliaid. Mae'r memorandwm yn darparu fframwaith ar gyfer gweithredu rheolaethau swyddogol ar fwyd anifeiliaid yng Nghymru. Mae pob rhanbarth yn cynllunio ei weithgarwch mewn perthynas â'r targedau ymyrryd y cytunwyd arnynt gan yr ASB a'r Grŵp Llywodraethu Bwyd Anifeiliaid. Mae cynllun samplu'n cael ei greu ar lefel ranbarthol yn unol â'r gyllideb a gynigir gan yr ASB. Mae'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn ceisio sicrhau bod gwaith gorfodi deddfwriaeth bwyd anifeiliaid yng Nghymru yn cael ei wneud mewn modd effeithiol, cyson a chydgysylltiedig, yn sefydlu rolau a chyfrifoldebau rhwng partïon, ac yn cynnwys y trefniadau ariannol gan gynnwys dadansoddiad o'r niferoedd a'r mathau o arolygiadau sy'n cael eu hariannu a chostau samplu.

3.1.5 Mae'r ASB yn talu am weithgareddau bwyd anifeiliaid bob chwarter yn seiliedig ar waith a gwblhawyd gan y rhanbarth yn ystod y chwarter blaenorol.


3.1.6 Ar gyfer 2017/18 a 2018/19, roedd yr arian a dalwyd i'r rhanbarthau ar gyfer cwblhau gwaith bwyd anifeiliaid yn unol â disgwyliadau gyda rhai mân amrywiadau. Roedd yr archwilydd o'r farn bod yr amrywiadau'n rhesymol,

gan adlewyrchu penderfyniadau a wnaed gan awdurdodau mewn ymateb i newidiadau mewn busnesau a gweithgareddau masnachu ym mhob ardal fel y dangosir yn Ffigur 2 a Ffigur 3 isod.

**Ffigur 2 – Cyfanswm hawliadau ariannol fesul rhanbarth ar gyfer gwaith bwyd anifeiliaid (2017/18)**




**Ffigur 3 – Cyfanswm hawliadau ariannol fesul rhanbarth ar gyfer gwaith bwyd anifeiliaid (2018/19)**




3.1.7 Mae Ffigurau 2 a 3 yn dangos sut mae'r cyllid yn amrywio ym mhob rhanbarth am fod adnoddau'n cael eu targedu at y meysydd lle mae'r galw mwyaf. Mae hyn yn cefnogi'r dull sy'n seiliedig ar risg sydd ar waith.


## Dyrannu Staff

3.1.8 Cynhaliwyd arolygiadau bwyd anifeiliaid gan Swyddogion Safonau Masnach, Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd, Swyddogion Iechyd Anifeiliaid a Swyddogion Masnach Deg. Cafodd yr arolygiadau eu cyfuno'n aml â swyddogaethau eraill megis iechyd anifeiliaid neu hylendid bwyd ar lefel cynhyrchu cynradd, a hynny er mwyn lleihau'r baich rheoleiddio ar fusnesau a sicrhau bod adnoddau awdurdodau lleol yn cael eu defnyddio'n effeithlon. Mae angen bod yn hyblyg wrth ddarparu gwasanaethau gan fod llawer mwy o fwyd anifeiliaid yn cael ei ddefnyddio yn ystod y gaeaf.

3.1.9 Ers i'r model gweithredu bwyd anifeiliaid rhanbarthol gael ei roi ar waith, bu cynnydd cyffredinol yn nifer y swyddogion cyfwerth ag amser llawn sy'n ymwneud â gwaith bwyd anifeiliaid yn y pedwar rhanbarth a archwiliwyd. Dyma gynnydd o 5.8 i 8.5 swyddog cyfwerth ag amser llawn. Mae'n debygol bod y cynnydd mewn swyddogion cyfwerth ag amser llawn wedi deillio o'r newid cysylltiedig yn y mecanwaith ariannu, gyda mwy o arian bellach yn cyrraedd gwasanaethau rheng flaen. Erbyn hyn, mae mwy o swyddogion ar gael i gyflawni dyletswyddau bwyd anifeiliaid yn y rhan fwyaf o awdurdodau, gan gynyddu lefelau gwytnwch yn yr arbenigedd hwn.


3.1.10 Ar sail ranbarthol, dangosir y cynnydd yn nifer y swyddogion cyfwerth ag amser llawn sy'n ymwneud â gwaith bwyd anifeiliaid yn ffigur 4 isod. Mae'n cymharu lefelau staffio pan gyflwynwyd y model gweithredu bwyd anifeiliaid rhanbarthol ym mis Ebrill 2015 â lefelau staffio ar adeg pob archwiliad bwyd anifeiliaid rhanbarthol.

**Ffigur 4 – Cyfanswm swyddogion bwyd anifeiliaid cyfwerth ag amser llawn (FTEs) fesul rhanbarth (cymhariaeth rhwng 2015 ac adeg pob archwiliad rhanbarthol)**



3.1.11 Mae Ffigur 5 yn dangos cyfran gyfartalog yr amser a dreuliodd swyddogion ar waith bwyd anifeiliaid ar adeg yr archwiliad ym mhob un o'r chwe rhanbarth.

**Ffigur 5 – Amser cyfartalog swyddogion bwyd anifeiliaid cyfwerth ag amser llawn (FTEs) fesul rhanbarth (ar adeg pob archwiliad rhanbarthol)**





## Grwpiau Cyswllt

3.1.12 Ledled y DU, mae nifer o baneli cenedlaethol sydd â diddordeb mewn bwyd anifeiliaid, gan gynnwys y Panel Amaethyddiaeth Cenedlaethol, y Panel Porthladdoedd Bwyd Anifeiliaid Cenedlaethol, y Grŵp Cyswllt Gorfodi Cyfraith Bwyd Anifeiliaid, a'r Pwyllgor Cynghori ar Fwyd Anifeiliaid. Cynrychiolir awdurdodau lleol yng Nghymru ar y tri phanel cyntaf hyn.

3.1.13 Yng Nghymru, mae'r Grŵp Llywodraethu Bwyd Anifeiliaid yn goruchwylio gwaith gweithredu rheolaethau swyddogol ar fwyd anifeiliaid, ac mae'n cynnwys cynrychiolwyr o Gyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd yng Nghymru, Penaethiaid Safonau Masnach Cymru, sydd bellach yn Safonau Masnach Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a'r ASB. Mae'n cynnig cyfeiriad strategol a throsolwg o'r gwaith gweithredu ac mae'n gyfrifol am gytuno ar drefniadau er mwyn sicrhau bod awdurdodau lleol yn cydweithredu'n effeithiol i gyflawni bwyd anifeiliaid.

3.1.14 Sefydlwyd Grŵp Bwyd Anifeiliaid Rhanbarthol Safonau Masnach Cymru er mwyn hyrwyddo cysondeb wrth weithredu rheolaethau swyddogol ar fwyd anifeiliaid yng Nghymru, ac i fod yn gyswllt rhwng yr ASB a rhanddeiliaid allweddol eraill. Mae'r Grŵp Bwyd Anifeiliaid Rhanbarthol yn cynnwys y chwe RLFO, ac mae'n cynnwys cynrychiolaeth gan yr ASB yng Nghymru a Safonau Masnach Cymru. Mae'r grŵp hwn yn cydlynu cydweithio rhanbarthol ac yn cael ei gynrychioli ar y safonau cenedlaethol a osodir gan y Panel Amaethyddiaeth Cenedlaethol a'r Safonau Masnach Cenedlaethol, gan hefyd weithredu yn unol â'r safonau hynny. Mae'r grŵp, sy'n cwrdd bob chwarter, yn adrodd i Gyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd yng Nghymru drwy Safonau Masnach Cymru a'r Bwrdd Llywodraethu Bwyd Anifeiliaid. Dangosir yr wybodaeth sy'n cael ei chyfnewid rhwng paneli bwyd anifeiliaid a rhanbarthau bwyd anifeiliaid Cymru yn Ffigur 6 isod.

**Ffigur 6 – Gwybodaeth a gaiff ei chyfnewid rhwng paneli a rhanbarthau bwyd anifeiliaid**




3.1.15 Nododd yr archwiliad drefniadau effeithiol ar gyfer cydgysylltu rhwng awdurdodau lleol a rhanbarthau ledled Cymru. Mae pob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru yn cydweithio'n agos drwy Gyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd yng Nghymru (DPPW), Safonau Masnach a Grwpiau Iechyd yr Amgylchedd a'u Paneli Arbenigol. Mae cynrychiolwyr o gyrff eraill sydd â rolau cysylltiedig – fel yr ASB, yr Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd (yr Uned) yr ASB, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Canolfan Goruchwylio Clefydau Trosglwyddadwy (Cymru), Dadansoddwyr Cyhoeddus, Cymdeithas


Llywodraeth Leol Cymru, Llywodraeth Cymru, Gwasanaethau Rheoleiddio Llywodraeth Leol, Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd, a Swyddfa Diogelwch a Safonau Cynhyrchion – hefyd yn rhan o'r grwpiau hyn, lle bo hynny'n briodol. Y RLFO a swyddogion cyswllt dynodedig ym mhob awdurdod lleol fu'n cydlynu trefniadau cyswllt ym mhob rhanbarth. Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir oedd yr eithriad i'r trefniant hwn gan fod gwasanaethau pob awdurdod lleol wedi'u huno yn un gwasanaeth. Roedd yn ymddangos bod gwaith cydlynu gweithgarwch bwyd anifeiliaid rhwng yr awdurdodau lleol yr ymwelwyd â nhw'n gweithio'n dda ym mhob rhanbarth.

### Adolygu Perfformiad


3.1.16 Rhoddwyd gwybod i archwilwyr fod y Grŵp Bwyd Anifeiliaid Rhanbarthol, wedi'i gefnogi gan yr ASB, yn cynnal adolygiad blynyddol o berfformiad yn erbyn y rhaglen arolygu, targedau a safonau perfformiad penodedig, a chanlyniadau eraill a nodwyd.

3.1.17 Rhoddir adroddiad ar weithgareddau awdurdodau lleol i'r RLFO bob chwarter. Wedyn, anfonir yr wybodaeth gyfunol ar gyfer y rhanbarth i'r ASB. Roedd yr wybodaeth ar ddiwedd y ddwy flynedd adrodd ddiwethaf yn nodi bod y pedwar rhanbarth a archwiliwyd wedi cyflawni'r nifer o arolygiadau a gynlluniwyd yn gyffredinol, gyda rhywfaint o amrywiaeth yn y math o weithgarwch. Roedd yr archwilydd o'r farn bod yr amrywiadau yn rhesymol ac yn adlewyrchu penderfyniadau awdurdodau mewn ymateb i gofrestru busnesau newydd neu newidiadau mewn gweithgareddau masnachu busnesau ym mhob ardal, fel y dangosir ar gyfer arolygiadau dros y ddwy flynedd yn Ffigurau 7 ac 8 isod.

**Ffigur 7 – Nifer yr arolygiadau a gwblhawyd fesul rhanbarth (%) yn ôl gwybodaeth 2017/18 o gymharu â'r rhaglen arolygu flynyddol**





**Ffigur 8 – Nifer yr arolygiadau a gwblhawyd fesul rhanbarth (%) yn ôl gwybodaeth 2018/19 o gymharu â'r rhaglen arolygu flynyddol**





3.1.18 Dangosir cyfanswm yr hawliadau ariannol fesul rhanbarth fel canran o ddyraniad y gyllideb ranbarthol dros y ddwy flynedd yn Ffigurau 9 a 10. Nid yw'r wybodaeth hon yn gysylltiedig â'r wybodaeth yn ffigurau 7 & 8 ac nid oes modd cymharu'r ddwy set ddata. Mae yna weithgareddau eraill yn gysylltiedig â'r model gweithredu bwyd anifeiliaid yn ogystal ag arolygiadau y bydd awdurdodau lleol yn eu hawlio fel rhan o'u dyraniad o'r gyllideb ranbarthol.

**Ffigur 9 – Cyfanswm a hawliwyd fesul rhanbarth fel canran o ddyraniad y gyllideb (2017/18)**




**Ffigur 10 – Cyfanswm a hawliwyd fesul rhanbarth fel canran o ddyraniad y gyllideb (2018/19)**




3.1.19 Nododd yr archwilwyr, mewn dau o'r pedwar rhanbarth a archwiliwyd, nad oedd bob amser yn bosibl i'r gwasanaethau nodi'r union sefydliadau a oedd wedi bod yn destun ymyriad fel yr oeddent wedi'u cynnwys yn yr wybodaeth.

**Argymhelliad 1**

Rhaid i awdurdodau lleol sicrhau eu bod yn gallu nodi'r union sefydliadau sydd wedi'u cynnwys yn yr wybodaeth am weithgarwch bwyd anifeiliaid, a hynny drwy gadw cofnodion priodol. [Y Safon 6.3/Erthyglau 5(1(a) a (b), 10(2), a 13(1) o Reoliad (UE) 2017/625]

Dylai'r ASB sicrhau bod dogfennau Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn cael eu diwygio i egluro'r gofyniad i awdurdodau lleol gadw cofnodion o'r fath.

## 3.2 Awdurdodi a Hyfforddi Swyddogion

### Nifer y Swyddogion Awdurdodedig

3.2.1 Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol gael, neu gael mynediad at, nifer ddigonol o staff profiadol a chymwys, gyda'r cymwysterau priodol, fel y gellir cyflawni rheolaethau swyddogol i wirio cydymffurfiaeth â chyfraith bwyd anifeiliaid yn effeithlon ac yn effeithiol.

3.2.2 Ers i'r model gweithredu bwyd anifeiliaid rhanbarthol gael ei roi ar waith yng Nghymru, bu cynnydd cyffredinol yn nifer y swyddogion cyfwerth ag amser llawn sy'n ymwneud â gwaith bwyd anifeiliaid ledled y pedwar rhanbarth a archwiliwyd. Dyma gynnydd o 5.8 i 8.5 swyddog cyfwerth ag amser llawn. Mae'r ffigur diweddaraf o ran swyddogion cyfwerth ag amser llawn yn deillio o ddata sy'n dangos bod cyfanswm o 47 o swyddogion yn ymwneud â gwaith gweithredu bwyd anifeiliaid ledled y pedwar rhanbarth. Maent yn aml yn cyfuno gwaith bwyd anifeiliaid â swyddogaethau rheoleiddio eraill.

3.2.3 Mae'r gyfran gyfartalog isel o amser a y mae swyddogion awdurdodedig yn ei dreulio yn gwneud gwaith gorfodi cyfraith bwyd anifeiliaid (18%) yn gyson â'r canfyddiadau a'r pryderon a godwyd yn archwiliad Swyddfa Bwyd a Milfeddygaeth y Comisiwn Ewropeaidd (CE) o drefniadau'r DU ar gyfer gweithredu rheolaethau swyddogol ar fwyd anifeiliaid yn ystod 2014.

3.2.4 Mae'r niferoedd cymharol uchel o swyddogion bwyd anifeiliaid awdurdodedig a'r gyfran gyfartalog isel o'r amser gwaith a neilltuir i reolaethau bwyd anifeiliaid (gweler ffigur 5 yn 3.1.10) yn peri heriau parhaus i awdurdodau lleol yng Nghymru. Mae'r heriau hyn yn cynnwys sicrhau bod swyddogion bwyd anifeiliaid yn gymwys a'u bod yn cael digon o gyfleoedd hyfforddi a

datblygu parhaus priodol, ac ar yr un pryd yn helpu i ddarparu gwytnwch. Mae'r gyfran fach o amser y mae swyddogion yn treulio ar reolaethau swyddogol sy'n ymwneud â dilysu cyfraith bwyd anifeiliaid yng Nghymru yn cynyddu'r risg na fydd swyddogion yn gallu ennill na chynnal digon o brofiad i gynnal rheolaethau swyddogol ar fwyd anifeiliaid yn gyson ac yn effeithiol. Rhoddir tystiolaeth sy'n ymwneud â gweithredu rheolaethau swyddogol yn anghyson yn adrannau 3.3.28, 3.3.30 a 3.5.11.

**Awdurdodi a Hyfforddi**

3.2.5 Rhaid awdurdodi swyddogion i gyflawni'r rheolaethau swyddogol yn unol â gweithdrefn gofnodedig, a rhaid cadw cofnod ysgrifenedig. Mae'n rhaid i swyddogion awdurdodedig fod â'r cymwysterau, y profiad a'r cymwyseddau addas i gyflawni'r ystod o dasgau a dyletswyddau y caniateir iddynt, neu y mae'n ofynnol iddynt, eu cyflawni. Rhaid peidio ag awdurdodi swyddogion i gyflawni tasgau nad ydynt yn gymwys i'w cyflawni, hyd yn oed os gofynnir iddynt gyflawni tasgau o'r fath fel rhan o'u dyletswyddau.

3.2.6 Mae'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd Anifeiliaid a'r Canllawiau Ymarfer yn nodi'r gofynion o ran cymwysterau, hyfforddiant a datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) y dylai awdurdodau cymwys eu hystyried wrth awdurdodi swyddogion bwyd anifeiliaid.

3.2.7 Rhaid i swyddogion bwyd anifeiliaid awdurdodedig gael hyfforddiant priodol i'w galluogi i gyflawni eu dyletswyddau mewn modd cymwys ac i gyflawni rheolaethau swyddogol mewn modd cyson. Rhaid i awdurdodau lleol sicrhau bod staff yn cynnal lefel eu cymhwysedd.

3.2.8 Roedd gweithdrefnau cofnodedig ar gyfer asesu cymhwysedd mewn perthynas ag awdurdodiadau ac ar gyfer y broses o awdurdodi swyddogion wedi'u datblygu ym mhob un o'r pedwar rhanbarth. Fodd bynnag, nid oedd y gweithdrefnau cofnodedig yn cynnwys pob awdurdod lleol mewn dwy o'r rhanbarthau. Ym mhob un o'r pedwar rhanbarth, roedd RLFOs yn chwarae rhan wrth asesu cymhwysedd swyddogion bwyd anifeiliaid ledled y rhanbarth at ddibenion awdurdodi.

3.2.9 Roedd angen datblygu neu ddiwygio gweithdrefnau awdurdodi cofnodedig ymhellach mewn tri rhanbarth er mwyn cynnwys dogfennu'r broses awdurdodi lawn, asesu cymhwysedd swyddogion, manylu ar sut y caiff awdurdodiadau eu cyfyngu yn unol ag asesiadau cymhwysedd, manylu ar ba hyfforddiant sy'n cael ei gynnig i'r swyddogion hynny nad ydynt wedi ymwneud â gwaith gorfodi cyfraith bwyd anifeiliaid am fwy na thair blynedd, a chyfeirio at brofiad yn ogystal â chymwysterau a chymhwysedd yn unol â chynnwys y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd Anifeiliaid.

3.2.10 Roedd pob awdurdod lleol yn awdurdodi swyddogion i ymgymryd â gwaith gorfodi yn eu hardaloedd. Mewn tri rhanbarth, roedd awdurdodau lleol wedi awdurdodi swyddogion o'u hawdurdodau partner i ymgymryd â gweithgarwch gorfodi bwyd anifeiliaid yn eu hardaloedd gan eu galluogi i weithredu ar draws ffiniau awdurdodau lleol. Yn yr achos hwn, awdurdodwyd y RLFO i gyflawni dyletswyddau yn y rhanbarth. Mewn dau ranbarth, y RLFO sydd wedi'i benodi hefyd fel swyddog arweiniol ar fwyd anifeiliaid o fewn awdurdodau partner eraill.

3.2.11 Cafodd awdurdodiadau eu seilio ar asesiadau cymhwysedd a gynhaliwyd gan y RLFO. Mewn tri rhanbarth, roedd yr awdurdodiadau hyn yn dibynnu ar wybodaeth a gasglwyd gan bob awdurdod lleol mewn fformat safonol ar gyfer Cymru gyfan. Yn y rhanbarth arall, roedd y fformat casglu gwybodaeth yn benodol i'r rhanbarth. Mewn dau ranbarth, cwblhawyd dim ond rhan o'r asesiad cymhwysedd ar gyfer rhai swyddogion bwyd anifeiliaid, neu roedd angen diweddaru'r asesiad i adlewyrchu'r gofynion o ran cymhwysedd sy'n ofynnol gan y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd Anifeiliaid.

3.2.12 Roedd sampl o ddogfennau awdurdodi swyddogion yn nodi nad oedd awdurdodiadau rhai swyddogion yn y pedwar rhanbarth wedi'u cyfyngu yn unol â chymwysterau, hyfforddiant a phrofiad swyddogion, naill ai'n benodol ar y ddogfen awdurdodi neu ar gofnod cysylltiedig o'r asesiad o gymhwysedd. Mewn rhai achosion, roedd angen diweddaru awdurdodiadau i sicrhau bod yr holl ddeddfwriaeth berthnasol a chyfoes yn cael ei chynnwys.

3.2.13 Nododd sampl o gofnodion cymwysterau a hyfforddiant fod swyddogion wedi'u hawdurdodi, yn gyffredinol, yn unol â'u cymwysterau, eu hyfforddiant a'u profiad. Ar y cyfan, roedd cymwysterau academaidd a chymwysterau perthnasol eraill wedi'u nodi ar gyfer swyddogion bwyd anifeiliaid, lle bo hynny'n berthnasol. Roedd tystiolaeth o'r isafswm gofynnol o hyfforddiant datblygiad proffesiynol parhaus (DPP), sef 10 awr, ar gael yn y rhan fwyaf o achosion. Ym mhob un o'r pedwar rhanbarth, roedd o leiaf un awdurdod lleol nad oedd wedi cadw cofnodion cymwysterau a hyfforddiant ar gyfer pob un o'u swyddogion awdurdodedig.

**Argymhelliad 2**

(a) Rhaid i awdurdodau lleol wella dulliau cydweithredu'n rhanbarthol i sicrhau bod staff cymwys, profiadol sydd â'r cymwysterau addas ac sydd wedi'u hawdurdodi i weithredu ym mhob rhanbarth yn cyflawni rheolaethau swyddogol. Mae hyn er mwyn sicrhau y gellir cynnal rheolaethau swyddogol a dyletswyddau rheoli'n effeithlon ac yn effeithiol. [Erthygl 5(1)(e), Rheoliad (UE) 2017/625]

(b) Dylai awdurdodau lleol sefydlu, adolygu, diwygio (yn ôl y gofyn) a gweithredu gweithdrefn gofnodedig ar gyfer awdurdodi swyddogion yn seiliedig ar eu cymhwysedd ac yn unol â'r Codau Ymarfer perthnasol ac unrhyw ganllawiau a gyhoeddir yn ganolog. [Y Safon 5.1/Erthyglau 5 a 12, Rheoliad (UE) 2017/625]

(c) Dylai awdurdodau adolygu a diweddaru'r dogfennau awdurdodi i sicrhau eu bod yn cynnwys cyfeiriadau at bob deddfwriaeth berthnasol a chyfredol. Dylai lefel awdurdodi swyddogion fod yn gyson â'u cymwysterau, eu hyfforddiant, eu profiad a'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd Anifeiliaid. Pan nad yw tystysgrifau awdurdodi yn cynnig gwybodaeth am lefel yr awdurdodiad ond bod gwybodaeth o'r fath yn cael ei darparu mewn asesiadau cymhwysedd priodol, dylid cysylltu'r dogfennau hyn ag un offeryn awdurdodi cyffredinol. [Y Safonau 5.3/Erthyglau 5 a 12, Rheoliad (UE) 2017/625]

(d) Dylai awdurdodau lleol gadw cofnodion am gymwysterau, hyfforddiant a phrofiad pob swyddog awdurdodedig. Rhaid i awdurdodau sicrhau bod swyddogion bwyd anifeiliaid yn cael o leiaf 10 awr o hyfforddiant datblygiad proffesiynol parhaus y flwyddyn. [Y Safon 5.4 a 5.5/Erthyglau 5 a 12, Rheoliad (UE) 2017/625]

## 3.3 Ymyriadau ac Arolygiadau, Cofnodion ac Adroddiadau Sefydliadau Bwyd Anifeiliaid

### Seilio Rheolaethau ar Risg

3.3.1 Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol gynnal rheolaethau swyddogol ar bob gweithredwr busnes bwyd anifeiliaid o fewn y rhaglen bwyd anifeiliaid yn rheolaidd, ar sail risg ac mor aml ag sy'n briodol.

3.3.2 Rhaid i reolaethau sy'n seiliedig ar risg gwmpasu pob rhan o'r gadwyn bwyd anifeiliaid gan gynnwys, lle bo'n briodol, reolaethau ar fewnforion, yn fewndirol ac mewn mannau cyrraedd, yn ogystal â'r rheolaethau ar y busnesau bwyd hynny sy'n rhoi bwyd dros ben neu gydgynhyrchion yn y gadwyn bwyd anifeiliaid.

3.3.3 Rhaid i sefydliadau busnesau bwyd anifeiliaid newydd sy'n dod i sylw pob awdurdod lleol am y tro cyntaf gael eu cofrestru neu eu cymeradwyo a'u cynnwys yn ei gronfa ddata sefydliadau bwyd anifeiliaid a'i raglen bwyd anifeiliaid. Pennir sgôr risg yn dilyn pob arolygiad cychwynnol.

3.3.4 Mae'r sgôr risg yn pennu faint o amser ddylai fynd heibio rhwng un arolygiad wedi'i gynllunio mewn sefydliad bwyd anifeiliaid a'r nesaf. Rhaid asesu neu ailasesu sgoriau risg busnes bwyd anifeiliaid ar ddiwedd pob arolygiad a

gynlluniwyd yn unol â chynllun sgorio arolygiadau'r gyfraith bwyd anifeiliaid[1]. Mae'r asesiad yn ystyried y risg bosibl a lefel gydymffurfio bresennol busnes bwyd anifeiliaid.

3.3.5 Defnyddir categori risg a roddir i safle ar ôl arolygu a sgorio'r safle yn unol â'r cynllun sgorio arolygiadau'r gyfraith bwyd anifeiliaid er mwyn penderfynu pa mor aml y dylid arolygu'r safle.

3.3.6 Fel rhan o Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth pob rhanbarth y cytunwyd arno gyda'r ASB ar gyfer gweithredu rheolaethau swyddogol ar fwyd anifeiliaid yng Nghymru, mae rhaglen arolygu flynyddol ar sail risg wedi'i datblygu a'i chytuno rhwng awdurdodau lleol a'r ASB. Pennir niferoedd arolygiadau ar gyfer gwahanol gategorïau risg o fusnesau bwyd anifeiliaid yn dilyn ymarfer modelu bwrdd gwaith a gydlynir gan bob RLFO. Yna, cytunir ar hyn gan yr ASB a'r Grŵp Llywodraethu Bwyd Anifeiliaid. Mae hwn yn ystyried ffactorau fel categori sgôr risg y busnes bwyd anifeiliaid, y cod cofrestru neu'r cod cymeradwyo gweithgarwch, dyddiad yr arolygiad ac a ddylid cymhwyso'r cynllun cydnabyddiaeth ar sail perfformiad.

3.3.7 Mae'r ASB yn talu'r RLFO bob chwarter am ymyriadau wedi'u cwblhau i'w dosbarthu, fel y bo'n briodol, i awdurdodau lleol yn seiliedig ar ffurflenni gweithgarwch bwyd anifeiliaid. Mae taliadau'n amrywio yn dibynnu ar god cofrestru gweithgarwch y busnes bwyd anifeiliaid. Mae mannau cyrraedd, ailymweliadau a gweithgareddau masnachu sydd wedi dod i ben wedi'u cynnwys yn y system dalu.

3.3.8 Roedd yr adroddiadau ar ddiwedd y ddwy flynedd adrodd ddiwethaf yn nodi bod y pedwar rhanbarth, at ei gilydd, wedi cynnal y niferoedd o arolygiadau a gynlluniwyd (gweler ffigurau 7 ac 8 yn adran 3.1.16), gyda rhywfaint o amrywiaeth o ran y math o weithgarwch a ystyriwyd yn rhesymol.

I

3.3.9 Yn ogystal â'r ymyriadau sy'n cael eu cynnal o fewn y rhaglen arolygu dan sylw, mewn tri rhanbarth, roedd nifer fach o sefydliadau â sgôr a oedd yn hwyr yn cael eu harolygu yn unol â'r amlder sy'n ofynnol gan y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd Anifeiliaid. Yn y pedwerydd rhanbarth, roedd ôl-groniad o arolygiadau hwyr, risg isel yn bennaf. Nid oedd unrhyw sefydliadau heb sgôr

---

[1]Caiff yr Awdurdodau Cymwys hefyd seilio asesiad risg y gyfraith bwyd anifeiliaid ar Gynllun Asesu Risg Cymdeithas y Prif Swyddogion Safonau Masnach (ACTSO) a'r Bwrdd Safonau Masnach Cenedlaethol (NTSB) ar gyfer safonau masnach. Pan fydd asesiadau'n seiliedig ar gynllun ACTSO/NTSB, ni ddylid cyflawni arolygiadau at ddibenion y gyfraith bwyd anifeiliaid yn llai aml nag y byddent yn cael eu cyflawni o dan y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd Anifeiliaid. Yn ogystal, rhaid rhoi statws y cynllun cydnabyddiaeth ar sail perfformiad i sefydliadau busnesau bwyd anifeiliaid unigol, fel y disgrifir yn y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd Anifeiliaid.

mewn un rhanbarth. Yn y tri rhanbarth arall, roedd sefydliadau heb sgôr yn cael eu hymgorffori'n raddol yn y rhaglen dargedu ac roedd ymyriadau'n cael eu dewis i'w cynnwys yn y rhaglenni ar sail risg.

**Y Cynllun Cydnabyddiaeth ar sail Perfformiad**

3.3.10 Pan fydd awdurdodau lleol yn penderfynu pa mor aml i gyflawni'u rheolaethau swyddogol, gallant gydnabod safonau gweithredwyr busnesau bwyd anifeiliaid sy'n dangos eu bod yn cynnal safonau uchel o ran diogelwch bwyd anifeiliaid drwy gymryd camau priodol i gydymffurfio â'r gyfraith. Felly, mae gweithredwyr o'r fath yn ennill cydnabyddiaeth ar sail perfformiad.

3.3.11 Os yw gweithredwr sefydliad busnes bwyd anifeiliaid yn aelod o gynllun sicrwydd bwyd anifeiliaid, bydd y sefydliad yn cael ei archwilio a'i arolygu'n llai aml, a hynny yn unol â'r amlder a nodir yn y Canllawiau Ymarfer.

3.3.12 Mae'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd Anifeiliaid yn disgrifio dwy ffordd y gall busnes bwyd anifeiliaid fod yn gymwys i ennill cydnabyddiaeth ar sail perfformiad:

- busnes nad yw'n aelod o gynllun sicrwydd ond sy'n dangos ei fod yn cydymffurfio'n fras
- neu fusnes sy'n aelod o gynllun sicrwydd cymeradwy ac sy'n dangos ei fod yn cydymffurfio'n foddhaol neu'n fras.

3.3.13 Gellir colli statws y cynllun cydnabyddiaeth ar sail perfformiad mewn sawl ffordd, gan gynnwys:

- os nad yw'r cynllun sicrwydd yn cael ei gymeradwyo gan yr ASB mwyach
- os nad yw gweithredwr y busnes bwyd anifeiliaid yn aelod o'r cynllun sicrwydd cymeradwy mwyach neu fod ei aelodaeth yn cael ei hatal dros dro
- os daw'r awdurdod lleol yn ymwybodol o anghydffurfio difrifol
- os oes gan yr awdurdod lleol reswm dros bryderu nad yw'r sefydliad yn cydymffurfio â'r gyfraith bwyd anifeiliaid berthnasol, er enghraifft, gwybodaeth gan asiantaethau gorfodi eraill sy'n awgrymu nad yw gofynion cyfraith bwyd anifeiliaid yn cael eu bodloni
- os yw gweithgarwch y sefydliad yn newid yn sylweddol a'i fod tu hwnt i gwmpas aelodaeth gweithredwr y busnes o'r cynllun sicrwydd
- os yw perchnogaeth y sefydliad busnes bwyd anifeiliaid y mae'r cynllun cydnabyddiaeth ar sail perfformiad yn berthnasol iddo yn newid.

3.3.14 Pan fydd awdurdod lleol yn cael gwybod y bydd busnes bwyd anifeiliaid yn colli statws y cynllun cydnabyddiaeth ar sail perfformiad a'i fod yn aelod o

gynllun sicrwydd cymeradwy, rhaid rhoi gwybod i'r ASB am hyn cyn gynted â phosibl gan ddefnyddio'r ffurflen adroddiad eithrio mewn perthynas ag ennill cydnabyddiaeth ar sail perfformiad.

3.3.15 Roedd y cynllun cydnabyddiaeth ar sail perfformiad wedi'i gymhwyso'n gywir mewn dau ranbarth. Roedd problemau gyda'r gronfa ddata wedi atal statws y cynllun cydnabyddiaeth ar sail perfformiad rhag cael ei gymhwyso'n llawn mewn o leiaf un awdurdod lleol yn y ddau ranbarth arall. Roedd tystiolaeth bod rhai adroddiadau eithrio yn cael eu llunio lle roedd hyn yn briodol, a hynny yn unol â'r Canllawiau Ymarfer. Fodd bynnag, mewn dau ranbarth nodwyd nifer bach o sefydliadau a oedd wedi bodloni'r meini prawf ar gyfer cael gwared ar gydnabyddiaeth ar sail perfformiad, ond na luniwyd adroddiad eithrio cyfatebol ar eu cyfer gyda'r ASB yn unol â'r Canllawiau Ymarfer.

### Gweithdrefnau Ymyrryd

3.3.16 Rhaid gweithredu rheolaethau swyddogol ar fwyd anifeiliaid yn unol â gweithdrefnau cofnodedig sy'n cynnwys y cyfarwyddiadau diweddaraf i staff sy'n cyflawni'r swyddogaethau hyn.

3.3.17 Mewn tri rhanbarth, rhoddodd awdurdodau lleol dystiolaeth o weithdrefnau cofnodedig ar gyfer cynnal ymyriadau bwyd anifeiliaid ac mewn rhai achosion, gweithdrefnau ar gyfer cofrestru a chymeradwyo busnesau bwyd anifeiliaid. Mewn un rhanbarth, roedd awdurdodau lleol wedi mabwysiadu gweithdrefn gofnodedig ar gyfer ailymweliadau a oedd yn rhoi manylion ynghylch a oedd angen ailymweliad ac amseroedd yr ailymweliadau; er nad oedd pob awdurdod lleol yn y rhanbarth wedi mabwysiadu hyn.

3.3.18 Yn y pedwar rhanbarth, nodwyd nad oedd gweithdrefnau ymyrryd bwyd anifeiliaid cyson a chynhwysfawr wedi'u mabwysiadu a'u rhoi ar waith. Gallai hyn effeithio ar gysondeb y dull a ddefnyddiwyd gan wahanol swyddogion bwyd anifeiliaid, yn enwedig pan oedd gwaith trawsffiniol yn cael ei wneud. Er nad oes gofyniad i sicrhau bod gweithdrefnau rhanbarth cyfan yn cael eu mabwysiadu, mae angen ystyried yr effaith bosibl ar gysondeb gweithio trawsffiniol.

3.3.19 Mewn rhai achosion, roedd angen adolygu a diwygio'r gweithdrefnau ymyrryd a archwiliwyd er mwyn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol. Roedd hyn yn cynnwys:

- cyfeirio swyddogion at y ffurflenni arolygu, ffurflenni adrodd a ffurflenni cofrestru/cymeradwyo priodol

- cynnwys gwybodaeth a oedd yn ymwneud â chymhwyso neu gael gwared ar y cynllun cydnabyddiaeth ar sail perfformiad
- sicrhau cywirdeb codau gweithgarwch bwyd anifeiliaid
- cyfeirio at Egwyddor y Prif Awdurdod a'r Awdurdod Cartref
- blaenoriaethu risgiau mewn busnesau newydd
- cynnal arolygiadau dirybudd neu fyr rybudd
- ei gwneud yn ofynnol i swyddogion nodi maint a graddfa gweithrediadau busnes
- cyfarwyddo swyddogion i naill ai adael adroddiad arolygu bwyd anifeiliaid gyda gweithredwyr busnesau bwyd anifeiliaid neu anfon copi atynt drwy'r post yn brydlon ar ôl arolygiad
- rhoi gwybodaeth i swyddogion am ailymweliadau gan gynnwys pryd y maent yn briodol ac amserlenni
- manylu ar ystyriaethau sy'n ymwneud â bwyd anifeiliaid wedi'i fewnforio.

3.3.20 Cyflwynwyd ffurflenni arolygu yn y gweithdrefnau ymyrryd i'w defnyddio mewn gwahanol fathau o sefydliadau bwyd anifeiliaid. Roedd ffurflenni arolygu safonol yn cael eu defnyddio yn y pedwar rhanbarth yng Nghymru. Roeddent yn darparu dull cyson o gasglu sylwadau arolygu a chofnodi asesiadau a wnaed yn ystod arolygiadau.

3.3.21 Byddai'r ffurflenni arolygu yn elwa ar fân ddiwygiadau i sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei chasglu mewn perthynas â'r canlynol:

- a oedd ymyriadau yn ddirybudd neu ar fyr rybudd
- cynnwys rhesymau dros roi gwybod am yr arolygiad
- cofnodi asesiadau o fwyd anifeiliaid wedi'i fewnforio.

3.3.22 Roedd awdurdodau lleol wedi datblygu amrywiol ffurflenni ar gyfer adroddiadau arolygu, a rhai ohonynt wedi'u teilwra at wahanol fathau o sefydliadau bwyd anifeiliaid, er mwyn rhoi gwybodaeth i weithredwyr busnesau bwyd anifeiliaid am ganlyniad pob ymyriad. Mewn tri rhanbarth, dywedwyd wrth archwilwyr fod un ffurflen yn cael ei defnyddio ledled y rhanbarth ar gyfer yr adroddiad arolygu. Mae hyn yn hyrwyddo cysondeb wrth roi'r wybodaeth i weithredwyr busnesau bwyd anifeiliaid yn dilyn ymyriad. Mewn rhai awdurdodau lleol a rhanbarthau, roedd sawl ffurflen yn cael ei defnyddio i roi adroddiad arolygu neu gyfleu canfyddiadau arolygiadau i weithredwyr busnesau bwyd anifeiliaid. O ganlyniad, roedd angen i'r awdurdodau lleol ystyried y broses yn ymarferol er mwyn sicrhau bod gwybodaeth briodol a chyflawn yn cael ei rhoi i weithredwyr busnesau bwyd anifeiliaid, yn enwedig pan oedd arolygiadau bwyd anifeiliaid trawsffiniol yn cael eu cynnal.

**Cofnodion ac Adroddiadau Ymyrryd**

3.3.23 Rhaid i awdurdodau lleol gadw cofnodion cywir a chyfoes am bob sefydliad bwyd anifeiliaid yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd Anifeiliaid, y Canllawiau Ymarfer a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog.

3.3.24 Rhaid i awdurdodau lleol ddiweddaru ffeiliau cofnodion sefydliadau ar ôl cyflawni rheolaethau swyddogol a rhaid iddynt gynnwys y wybodaeth ofynnol sy'n cael ei nodi yn y Canllawiau Ymarfer. Gall yr awdurdod lleol gadw'r ffeiliau hyn ar gyfrifiadur.

3.3.25 Rhaid cyflwyno adroddiad ysgrifenedig ar ganlyniad arolygiad neu archwiliad i weithredwr y busnes bwyd anifeiliaid bob amser, gan gynnwys pan fydd y canfyddiadau'n foddhaol.

3.3.26 Yn achos busnesau bwyd anifeiliaid sy'n methu â chydymffurfio â gofynion statudol pwysig, rhaid cymryd camau gorfodi priodol yn eu herbyn a rhaid ailymweld â nhw os nad oes modd asesu cydymffurfiaeth drwy ddull arall. Pan fydd swyddogion yn ailymweld, dylid canolbwyntio ar y tramgwyddau a nodwyd yn yr arolygiad diwethaf a gynlluniwyd, a dylid sicrhau eu bod wedi'u hunioni cyn penderfynu nad oes angen cymryd unrhyw gamau pellach. Pennir pryd i ailymweld â busnes yn ôl difrifoldeb yr achosion o ddiffyg cydymffurfiaeth.

3.3.27 Dewiswyd cyfanswm o 10 ffeil i'w harchwilio gan awdurdodau lleol ym mhob rhanbarth mewn perthynas â chofnodion ffeiliau ymyriadau bwyd anifeiliaid. Roedd sylwadau arolygu i'w cael mewn 90% o'r gwiriadau ffeil a gwblhawyd yn ystod y rhaglen archwilio.

3.3.28 Yn gyffredinol, roedd asesiadau yn drylwyr ac yn unol â'r gofynion. Fodd bynnag, roedd rhai ffeiliau'n nodi meysydd i'w gwella o ran cysondeb arolygu a chofnodi sylwadau arolygu, fel y dangosir isod:

- defnyddio'r ffurflen arolygu gywir
- cofnodi maint a graddfa gweithrediadau busnes
- cofnodi codau gweithgarwch
- tystiolaeth o asesiadau olrhain trylwyr
- asesu cynnydd busnes wrth gydymffurfio â gofynion Dadansoddi Peryglon a Phwyntiau Rheoli Critigol (HACCP)
- tystiolaeth o asesiadau mewn perthynas â bwyd anifeiliaid wedi'i fewnforio, lle bo hynny'n briodol
- cofnodi natur a maint problemau plâu
- sicrhau camau dilynol ar faterion sylweddol o arolygiadau blaenorol
- cymhwyso sgoriau risg cywir

- cymhwyso’r cynllun cydnabyddiaeth ar sail perfformiad
- sicrhau bod cofnodion cronfa ddata yn gywir
- bod yn gyson wrth gymryd camau dilynol priodol
- ailymweld â safleoedd mewn modd amserol, lle bo angen.

3.3.29 Dewiswyd ffeiliau 10 safle i’w harchwilio mewn awdurdodau lleol ym mhob rhanbarth, yn canolbwyntio ar adroddiadau ymyriadau bwyd anifeiliaid i weithredwyr busnesau bwyd anifeiliaid. Roedd adroddiadau arolygu a roddwyd i weithredwyr busnesau bwyd anifeiliaid i’w cael mewn 73% o’r gwiriadau ffeil a gwblhawyd yn ystod y rhaglen archwilio.

3.3.30 Roedd ffurflenni adroddiadau arolygu i weithredwyr busnesau bwyd anifeiliaid yn cynnwys awgrymiadau penodol i gofnodi llawer o’r wybodaeth ofynnol. Fodd bynnag, er bod y rhan fwyaf o’r adroddiadau i weithredwyr busnesau bwyd anifeiliaid yn cynnwys y rhan fwyaf o’r wybodaeth ofynnol, roedd llawer o enghreifftiau lle nad oedd yr wybodaeth ganlynol wedi’i rhoi:

- enw’r gweithredwr busnes bwyd anifeiliaid
- amser yr arolygiad
- y ddeddfwriaeth benodol a oedd yn sail i’r ymyriad
- pwyntiau allweddol a drafodwyd
- p’un a gymerwyd samplau ai peidio
- achosion o dorri’r rheolau a nodwyd
- achosion o dorri’r rheolau heb eu geirio’n glir
- mesurau i sicrhau cydymffurfio
- geiriad er mwyn gwahaniaethu rhwng gofynion cyfreithiol ac argymhellion
- amserlenni ar gyfer cydymffurfio
- manylion cyswllt y swyddog arolygu
- manylion cyswllt yr uwch swyddog
- camau i’r awdurdod bwyd anifeiliaid eu cymryd.

Nodwyd enghreifftiau unigol lle nad oedd modd ystyried ffurflenni fel adroddiad arolygu, ac nad oeddent yn cynnwys y rhan fwyaf o’r wybodaeth ofynnol. Mewn un awdurdod lleol, nid oedd yr un o’r ffurflenni arolygu a gyhoeddwyd fel adroddiadau wedi’u cydlofnodi ar ran gweithredwr y busnes bwyd anifeiliad yn unol â gweithdrefnau lleol.

3.3.31 Dangosodd dadansoddiad o gronfeydd data sefydliadau bwyd anifeiliaid ym mhob rhanbarth fod y mwyafrif o fusnesau wedi cael camau dilynol priodol.

**Argymhelliad 3**

(a) Bydd awdurdodau lleol yn sefydlu, yn cynnal ac yn diwygio (yn ôl yr angen) gweithdrefnau cofnodedig ar gyfer yr ystod o ymyriadau/arolygiadau a gynhelir ganddynt. Dylai hyn gynnwys sicrhau bod gweithredwyr busnesau bwyd anifeiliaid, sy'n cynnal safonau uchel o ran cydymffurfiaeth â chyfraith bwyd anifeiliaid, yn elwa ar y cynllun cydnabyddiaeth ar sail perfformiad. [Y Safon 7.4/Erthyglau 5 a 12, Rheoliad (UE) 2017/625]

(b) Rhaid i awdurdodau lleol gynnal ymyriadau/arolygiadau yn unol â'r ddeddfwriaeth, y Codau Ymarfer, canllawiau perthnasol a gyhoeddir yn ganolog, a pholisïau a gweithdrefnau'r awdurdod. Dylai hyn gynnwys sicrhau y rhoddir gwybod i'r ASB pan fydd busnes bwyd anifeiliaid yn colli cydnabyddiaeth ar sail perfformiad ac yn aelod o gynllun sicrwydd cymeradwy. Dylid gwneud hyn cyn gynted â phosibl gan ddefnyddio'r ffurflen adrodd ar eithrio rhag cydnabyddiaeth ar sail perfformiad. [Y Safon 7.2/Erthyglau 12 ac 14, Rheoliad (UE) 2017/625]

(c) Dylai awdurdodau lleol asesu cydymffurfiaeth sefydliadau a systemau yn eu hardal â'r safonau sydd wedi'u pennu gan y gyfraith. [Y Safon 7.3/Erthygl 14, Rheoliad (UE) 2017/625]

(d) Dylai awdurdodau lleol gadw cofnodion cyfredol a chywir ar ffurf adferadwy ar gyfer pob sefydliad bwyd anifeiliaid yn eu hardal, yn unol â Chodau Ymarfer a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog. Bydd y cofnodion hyn yn cynnwys penderfyniadau ar gydymffurfiaeth â gofynion cyfreithiol a wneir gan y swyddog awdurdodedig, a manylion y camau a gymerwyd lle nodwyd achos o fethu â chydymffurfio. Dylai'r awdurdod hefyd gofnodi, gyda rhesymau, unrhyw achosion o wyro oddi wrth weithdrefnau sefydledig. [Y Safon 16.1/Erthygl 13, Rheoliad (UE) 2017/625]

## 3.4 Cronfeydd Data Sefydliadau Bwyd Anifeiliaid

3.4.1 Rhaid i awdurdodau lleol sicrhau bod ganddynt gronfa ddata bwyd anifeiliaid sydd wedi'i ffurfweddu'n briodol. Rhaid i unrhyw feddalwedd gyfrifiadurol neu ddull arall o gadw cofnodion a ddefnyddir gan awdurdodau lleol fod yn ddibynadwy ac yn gallu cynnig unrhyw wybodaeth y mae'r ASB yn gofyn amdani'n rhesymol.

3.4.2 Rhaid i gronfeydd data awdurdodau lleol hefyd gofnodi manylion sefydliadau, sgoriau risg, arolygiadau/archwiliadau, samplau a chamau

gorfodi. Mae'r data hwn yn llywio'r rheolaethau swyddogol sy'n cael eu cyflawni gan y swyddogion, yn cefnogi camau awdurdodau lleol i fonitro'r modd y maent yn gweithredu rheolaethau swyddogol, ac yn darparu'r data sydd ei angen ar yr ASB bob blwyddyn i'w galluogi i baratoi adroddiadau am weithgarwch gorfodi a samplu yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon.

3.4.3 Mae cyllid ar gyfer gweithgarwch a gyflawnir gan awdurdodau lleol fel rhan o'r rhaglen cyflenwi bwyd anifeiliaid yng Nghymru yn cael ei adolygu'n flynyddol. Erbyn hyn, mae'n cynnwys camau a gymerir gan awdurdodau lleol i nodi busnesau sydd wedi rhoi'r gorau i fasnachu o ganlyniad i ymweliadau a gweithgareddau eraill. Gall y gweithgareddau hyn gynnwys, ond nid ydynt yn gyfyngedig i, dasgau gwiriadwy fel gwiriadau croesgyfeirio cronfeydd data, arolygon, ac arolygon trwy'r post neu dros y ffôn.

3.4.4 Roedd y rhaglen archwilio bwyd anifeiliaid yn cynnwys adolygiad o gofnodion awdurdodau lleol o gronfeydd data bwyd anifeiliaid yn ei methodoleg. Cynhaliwyd dadansoddiad penodol cyn archwiliadau ar y safle i nodi sefydliadau bwyd anifeiliaid a oedd yn hwyr yn cael sgôr, sefydliadau heb sgôr, safleoedd dyblyg, anghysondebau o ran ffurfweddu a chyfrifo cronfeydd data, swyddogion sy'n cynnal arolygiadau bwyd anifeiliaid, aelodaeth busnesau bwyd anifeiliaid o gynlluniau sicrwydd bwyd anifeiliaid cymeradwy yr ASB, sgoriau risg bwyd anifeiliaid a chymhwysedd adroddiadau eithrio. Trafodwyd unrhyw faterion posibl a nodwyd yn ystod dadansoddiad cyn archwilio ar y safle fel rhan o bob archwiliad rhanbarthol a gynhaliwyd ar y safle.

3.4.5 Canfu adolygiad o ansawdd data cronfeydd data bwyd anifeiliaid eu bod yn cael eu cynnal yn dda ar y cyfan gydag ychydig o wallau. Lle canfuwyd gwallau, darparwyd manylion i alluogi awdurdodau lleol i ymchwilio a datrys unrhyw broblemau.

3.4.6 Yn ystod y rhaglen archwilio, gwelwyd tystiolaeth i ddangos bod awdurdodau lleol yn glanhau data i gael gwared ar fusnesau bwyd anifeiliaid dyblyg a'r busnesau hynny sydd wedi'u heithrio, a sicrhau eu bod yn fwy cywir a chyfoes yn gyffredinol. Mae'n debygol bod y gweithgareddau hyn wedi'u hysgogi gan  gyllid awdurdodau lleol a gyflwynwyd i gydnabod pwysigrwydd cywirdeb cronfeydd data bwyd anifeiliaid.

## 3.5 Samplu Bwyd Anifeiliaid

### Polisi Samplu Bwyd Anifeiliaid

3.5.1 Rhaid i awdurdodau lleol baratoi a chyhoeddi polisi samplu bwyd anifeiliaid a sicrhau ei fod ar gael i fusnesau a defnyddwyr. Rhaid i’r polisi nodi’r dull cyffredinol y mae awdurdodau lleol yn ei ddefnyddio i samplu bwyd anifeiliaid a’r dull y maent yn ei ddefnyddio mewn sefyllfaoedd penodol. Mae’r rhain yn cynnwys monitro prosesau, cynllun partneriaeth y Prif Awdurdod, gan gynnwys cynlluniau arolygu, Egwyddor yr Awdurdod Cartref, arolygiadau, cwynion, ymchwiliadau arbennig a rhaglenni sy’n cael eu cydlynu’n genedlaethol, yn rhanbarthol ac yn lleol. Dylid paratoi’r polisi samplu bwyd anifeiliaid gan ymgynghori â Dadansoddwr Amaethyddol yr awdurdod lleol, a rhaid iddo sicrhau bod yr awdurdod lleol yn ymrwymo i ddarparu’r adnoddau sydd eu hangen i gyflawni ei raglen samplu bwyd anifeiliaid.

**Arferion da**

Cyhoeddodd Rhondda Cynon Taf ei pholisi samplu bwyd anifeiliaid ar ei gwefan gan sicrhau ei fod ar gael yn hawdd i ddefnyddwyr a busnesau.

3.5.2 Mewn dau ranbarth, roedd yr holl awdurdodau lleol yr ymwelwyd â nhw yn ystod y rhaglen archwilio, wedi dogfennu polisïau samplu. Mewn un rhanbarth arall, roedd o leiaf un awdurdod lleol a archwiliwyd wedi cyflwyno tystiolaeth o bolisi samplu bwyd anifeiliaid cofnodedig, gan ddangos ymrwymiad i weithredu a dyrannu adnoddau i’r rhaglen samplu bwyd anifeiliaid flynyddol. Yn y rhanbarth arall, nid oedd polisi samplu cofnodedig.

**Rhaglen samplu bwyd anifeiliaid**


3.5.3 Mae rhaglenni samplu bwyd anifeiliaid yn manylu ar flaenoriaethau samplu bwyd anifeiliaid arfaethedig gan ystyried nifer y busnesau bwyd anifeiliaid, y math o fusnesau a’u sgoriau risg, y math o fwyd anifeiliaid a gynhyrchir yn yr ardal, cyfrifoldebau Awdurdod Tarddu neu Awdurdod Cartref yr awdurdod lleol, cynlluniau arolygu’r Prif Awdurdod a’r angen i sicrhau bod darpariaethau cyfraith bwyd anifeiliaid yn cael eu gorfodi.

3.5.4 Yr ASB sy’n cydlynu gwaith samplu bwyd anifeiliaid yng Nghymru, a chaiff ei drefnu gan Grŵp Bwyd Anifeiliaid Rhanbarthol Penaethiaid Safonau Masnach Cymru. Mae’r gyllideb bwyd anifeiliaid flynyddol yn cynnwys darpariaeth i alluogi awdurdodau lleol i gynnal gwaith samplu. Mae gwaith samplu bwyd anifeiliaid yn cael ei gynllunio a’i gydlynu gan ystyried y Blaenoriaethau Gorfodi Bwyd Anifeiliaid Cenedlaethol, gyda hyblygrwydd yn


y rhaglen rhag ofn y bydd mater lleol neu risg yn dod i'r amlwg. Mae rhaglen samplu bwyd anifeiliaid flynyddol wedi'i datblygu ar gyfer Cymru sy'n nodi samplau bwyd anifeiliaid ar System Gwyliadwriaeth Bwyd y DU (UKFSS).

3.5.5 Gwnaeth y chwe rhanbarth bwyd anifeiliaid ddatblygu a chytuno ar holl raglenni samplu bwyd anifeiliaid Cymru, a hynny yn seiliedig ar risg. Roedd dau o'r pedwar rhanbarth a archwiliwyd wedi cyflawni'r niferoedd a gynlluniwyd o samplau yn ystod y flwyddyn cyn yr archwiliad, gyda rhywfaint o amrywiaeth yn y math o weithgarwch. Roedd y ddau ranbarth arall wedi cyflawni'r gweithgarwch samplu a gynlluniwyd lle'r oedd hyn yn bosibl. Roedd y math o weithgarwch yn amrywio. Roedd yr amrywiannau yn rhesymol gan adlewyrchu penderfyniadau awdurdodau mewn ymateb i newidiadau mewn busnesau a gweithgareddau masnachu ym mhob ardal. Mae Ffigurau 11 a 12 yn dangos dadansoddiad o'r profion bwyd anifeiliaid a gynhaliwyd, gan nodi'r math o ddadansoddiad a gynhaliwyd.

**Ffigur 11 – Dadansoddiad o brofion dadansoddol samplau bwyd anifeiliaid yng Nghymru yn 2017/18**




**Ffigur 12 – Dadansoddiad o brofion dadansoddol samplau bwyd anifeiliaid yng Nghymru yn 2018/19**



### Gweithdrefnau samplu bwyd anifeiliaid

3.5.6 Rhaid i awdurdodau lleol sefydlu, cynnal a gweithredu gweithdrefnau cofnodedig ar gyfer caffael neu brynu samplau, sicrhau parhad tystiolaeth ac atal dirywiad neu ddifrod i samplau o dan ei reolaeth yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd Anifeiliaid a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog.

**Arferion da**

Roedd Wrecsam wedi llunio dogfen ganllaw atodol i gynorthwyo swyddogion i ymgymryd â gwaith samplu bwyd anifeiliaid.

**Arferion da**

Roedd Casnewydd yn defnyddio llythyrau templed i sicrhau dull cyson o samplu bwyd anifeiliaid a fewnforir.

3.5.7 Mewn un rhanbarth, roedd pob awdurdod lleol yr ymwelwyd ag ef wedi dogfennu eu gweithdrefnau samplu bwyd anifeiliaid. Mewn dau ranbarth arall, darparodd o leiaf un awdurdod lleol a archwiliwyd dystiolaeth o weithdrefnau samplu bwyd anifeiliaid cofnodedig a oedd yn rhoi gwybod i swyddogion a oedd yn gweithio yn yr awdurdod lleol sut i gynnal gweithgareddau samplu. Yn y rhanbarth arall, nid oedd unrhyw weithdrefnau samplu bwyd anifeiliaid cofnodedig.

3.5.8 Roedd gweithdrefnau samplu cofnodedig yn unol â'r gofynion ar y cyfan, er bod angen eu diwygio mewn rhai achosion. Er enghraifft, roedd angen rhoi manylion am y camau i'w cymryd ar ôl i ganlyniadau samplu anfoddhaol ddod i law, a sicrhau bod Egwyddor y Prif Awdurdod a'r Awdurdod Cartref yn cael eu hystyried, lle bo'n briodol.

### Canlyniadau samplu bwyd anifeiliaid anfoddhaol

3.5.9 Roedd 22 o ffeiliau samplu bwyd anifeiliaid yn destun gwiriadau archwilio yn y pedwar rhanbarth, ac roedd canlyniadau'r gwaith dadansoddi'n dangos bod y bwyd anifeiliaid yn anfoddhaol. Cynhaliwyd asesiadau i benderfynu a oedd awdurdodau lleol wedi cymryd camau priodol yn unol â'u polisi gorfodi.

3.5.10 Swyddogion awdurdodedig a gynhaliodd yr holl waith samplu ac roedd holl ganlyniadau'r dadansoddiadau ar gael.

3.5.11 Mewn rhai achosion, ym mhob rhanbarth, nodwyd meysydd i'w gwella gan gynnwys:

- sicrhau bod gweithredwyr busnesau bwyd anifeiliaid yn cael gwybod am ganlyniadau anfoddhaol mewn modd amserol a chyson
- dilyn Egwyddor yr Awdurdod Cartref
- cynnal ymchwiliadau pellach; gan gynnwys gwirio bod gweithredwyr busnesau anifeiliaid bwyd wedi gwneud yr holl welliannau angenrheidiol.

**Argymhelliad 4**

Dylai awdurdodau lleol sefydlu, cynnal a gweithredu polisi samplu cofnodedig a fydd yn unol ag unrhyw ganllawiau a gyhoeddir yn ganolog a Chodau Ymarfer perthnasol. Bydd hefyd yn cynnwys cyfeiriad at ei ddull o ymdrin ag unrhyw raglen samplu genedlaethol berthnasol a gydlynir yn ganolog gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd. [Y Safon – 12.4/Erthyglau 5 a 12, Rheoliad (UE) 2017/625]

**Argymhelliad 5**

Rhaid i awdurdodau lleol sefydlu, adolygu, diwygio (yn ôl y gofyn) a gweithredu gweithdrefnau cofnodedig ar gyfer caffael neu brynu samplau, sicrhau parhad tystiolaeth ac atal dirywiad neu ddifrod i samplau o dan ei reolaeth yn unol â'r Codau Ymarfer perthnasol a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog. [Y Safon – 12.5/Erthyglau 5 a 12, Rheoliad (UE) 2017/625]

**Argymhelliad 6**

Dylai awdurdodau lleol gymryd camau priodol pan ystyrir bod canlyniadau sampl yn anfoddhaol. [Y Safon – 12.7/Erthyglau 12, 13 a 138, Rheoliad (EU) 2017/625]

## 3.6 Digwyddiadau bwyd anifeiliaid

3.6.1 Mae digwyddiadau bwyd anifeiliaid yn codi pan fydd pryderon am fygythiadau gwirioneddol neu pan amheuir bod bygythiadau i ddiogelwch

neu ansawdd bwyd anifeiliaid, a bod angen ymyrryd i ddiogelu iechyd y cyhoedd neu iechyd anifeiliaid.

3.6.2 Rhaid i awdurdodau lleol sefydlu a gweithredu gweithdrefn gofnodedig ar gyfer ymdrin â digwyddiadau sy'n ymwneud â bwyd anifeiliad a nodir o fewn eu hardal. Wrth ymateb i ddigwyddiadau bwyd anifeiliaid, rhaid i awdurdodau lleol ystyried defnyddio pwerau gorfodi cyfraith bwyd anifeiliaid i ddiogelu iechyd pobl ac iechyd anifeiliaid, cysylltu ag awdurdodau lleol eraill ac asiantaethau perthnasol, a rhoi gwybod i'r ASB am unrhyw ddigwyddiadau lleol difrifol neu broblem diogelwch bwyd anifeiliaid ehangach yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd Anifeiliaid.

3.6.3 Rhaid i'r weithdrefn gofnodedig ar gyfer ymdrin â digwyddiadau diogelwch bwyd anifeiliaid gynnwys ymateb prydlon ac effeithiol i rybuddion bwyd anifeiliaid, sef y dull a ddefnyddir gan yr ASB i roi gwybod i awdurdodau lleol am beryglon bwyd anifeiliaid a'r camau penodol i'w cymryd. Rhaid cofnodi'r ymateb i bob rhybudd bwyd anifeiliaid a'r canlyniad.

3.6.4 Rhaid i awdurdodau lleol hefyd gydymffurfio ag unrhyw gais rhesymol am wybodaeth neu gymorth gweinyddol gan awdurdod lleol arall, yr ASB neu gorff rheoli bwyd anifeiliaid mewn Aelod-wladwriaeth arall.

3.6.5 Ystyriodd y rhaglen archwilio argaeledd a chynnwys gweithdrefnau digwyddiadau bwyd anifeiliaid cofnodedig awdurdodau lleol, ac adolygwyd ac aseswyd digwyddiadau bwyd anifeiliaid a gychwynnwyd gan awdurdodau lleol neu yr oeddent wedi ymateb iddynt.

3.6.6 Mewn dau ranbarth, roedd gan bob awdurdod lleol yr ymwelwyd â nhw weithdrefn digwyddiadau bwyd anifeiliaid gofnodedig ar waith. Roedd o leiaf un awdurdod lleol mewn un o'r ddau ranbarth arall wedi datblygu gweithdrefnau cofnodedig a oedd yn rhoi gwybodaeth i swyddogion am ddigwyddiadau bwyd anifeiliaid. Lle roeddent wedi'u datblygu, roedd gweithdrefnau yn unol â'r gofynion ar y cyfan. Mewn un awdurdod lleol, er bod gweithdrefnau cofnodedig ar gyfer ymateb i ddigwyddiadau bwyd anifeiliaid wedi'u datblygu, nid oeddent yn cynnwys gweithdrefn ar gyfer cychwyn digwyddiadau bwyd anifeiliaid. Mewn un awdurdod lleol, roedd angen datblygu'r weithdrefn ymhellach er mwyn ymateb i hysbysiadau rhybuddio.

3.6.7 Rhoddwyd enghreifftiau o ddigwyddiadau a gafodd eu cychwyn a'u trosglwyddo i'r ASB yn unol â gofynion mewn dau ranbarth.

3.6.8 Mewn dau ranbarth, rhoddwyd enghreifftiau o ymatebion i ddigwyddiadau gan gynnwys cais am gymorth a chydweithrediad gweinyddol mewn perthynas â digwyddiad bwyd anifeiliaid. Roedd tystiolaeth o ymatebion effeithiol yn unol â'r gofynion.

**Argymhelliad 7**

Rhaid i awdurdodau lleol sefydlu, adolygu, diwygio (yn ôl yr angen) a gweithredu gweithdrefn gofnodedig ar gyfer cychwyn ac ymateb i rybuddion bwyd anifeiliaid, yn unol â'r Codau Ymarfer perthnasol. [Y Safon – 14.1/Erthyglau 5 a 12, Rheoliad (UE) 2017/625]

## 3.7 Gorfodi

### Polisi Gorfodi

3.7.1 Rhaid i awdurdodau lleol ddogfennu eu polisi gorfodi cyfraith bwyd anifeiliaid a rhaid iddo fod ar gael i weithredwyr busnesau bwyd anifeiliaid a defnyddwyr. Rhaid cadw'r polisi'n gyfredol a rhaid iddo drafod pob un o'r meysydd cyfraith bwyd anifeiliaid y mae dyletswydd ar yr awdurdod lleol i'w gorfodi. Rhaid i'r polisi hefyd gynnwys meini prawf ar gyfer defnyddio'r holl opsiynau gorfodi sydd ar gael a rhaid iddo gael ei gymeradwyo ar y lefel briodol.

3.7.2 Roedd pob awdurdod lleol a archwiliwyd ym mhob un o'r rhanbarthau bwyd anifeiliaid wedi dogfennu polisïau gorfodi a oedd yn cwmpasu deddfwriaeth bwyd anifeiliaid ac roedd pob polisi wedi'i gymeradwyo ar y lefel briodol. Mewn un rhanbarth, roedd y polisi'n cynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol ar gyfer gorfodi bwyd anifeiliaid; gan gynnwys y meini prawf ar gyfer cymryd y gwahanol fathau o gamau gorfodi. Yn y tri rhanbarth arall, gellid gwella polisïau gorfodi mewn rhai achosion drwy gynnwys y meini prawf ar gyfer cymryd camau anffurfiol a phob math arall o gamau gorfodi. Gellid hefyd ddiweddaru'r polisi i gyfeirio at y ddeddfwriaeth bwyd anifeiliaid gyfredol.

### Gweithdrefnau gorfodi

3.7.3 Rhaid i awdurdodau lleol sefydlu, cynnal a gweithredu gweithdrefnau cofnodedig ar gyfer camau dilynol a chamau gorfodi yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd Anifeiliaid a chanllawiau swyddogol.

3.7.4 Mewn un awdurdod lleol yn un o'r rhanbarthau a archwiliwyd, datblygwyd gweithdrefn orfodi gofnodedig a oedd yn cwmpasu'r ystod lawn o opsiynau gorfodi cyfraith bwyd anifeiliaid yn unol â gofynion.

3.7.5 Roedd dau awdurdod lleol arall mewn dau o'r rhanbarthau a archwiliwyd wedi datblygu gweithdrefnau gorfodi cofnodedig a fyddai'n elwa ar gynnwys cyfarwyddiadau i swyddogion ar ddefnyddio'r holl opsiynau gorfodi sydd ar gael, a sicrhau bod hysbysiadau templed a ffurflenni cyfreithiol ar gyfer yr

holl opsiynau gorfodi ar gael ac wedi'u cysylltu â'r weithdrefn. Nid oedd dau ranbarthau wedi datblygu gweithdrefnau gorfodi cofnodedig.

**Camau Gorfodi**

3.7.6 Rhaid i awdurdodau lleol sicrhau bod y camau gorfodi sy'n cael eu cymryd gan eu swyddogion awdurdodedig yn rhesymol, yn gymesur, yn seiliedig ar risg ac yn gyson ag arferion da.

3.7.7 Rhaid i swyddogion awdurdodedig weithredu polisi gorfodi cyfraith bwyd anifeiliaid eu hawdurdod lleol. Rhaid i unrhyw wyriad oddi wrth y polisi fod yn eithriad a dylid cofnodi'r rhesymau dros wyro oddi wrtho.

3.7.8 Rhaid i'r swyddogion awdurdodedig ystyried yr holl opsiynau gorfodi. Mae hyn yn cynnwys addysgu gweithredwyr busnesau bwyd anifeiliaid, rhoi cyngor, cymryd camau anffurfiol, samplu, cadw ac atafaelu bwyd anifeiliaid, rhoi hysbysiadau gwella busnes bwyd anifeiliaid (FBIN), rhoi hysbysiadau gwahardd busnes bwyd anifeiliaid neu hysbysiadau gwahardd brys (gyda cheisiadau dilynol am orchmynion llys), a mynd ati i erlyn.

3.7.9 Ac eithrio pan fydd yr amgylchiadau'n dangos bod risg sylweddol, rhaid i'r swyddogion ddefnyddio dull graddol ac addysgol (hierarchaeth y camau gorfodi) gan gychwyn gyda chyngor/addysg a chamau anffurfiol ac wedyn symud at gamau mwy ffurfiol pan na fydd y camau anffurfiol yn cyflawni'r hyn a ddymunir. Rhaid i'r dull a ddefnyddir sicrhau bod unrhyw achos o ddiffyg cydymffurfio â chyfraith bwyd anifeiliaid yn cael ei unioni'n brydlon.

3.7.10 Gwnaeth dau awdurdod lleol mewn dau ranbarth gyflawni ystod gyfyngedig o sancsiynau gorfodi yn ystod yr amserlen archwilio benodedig, sef dwy flynedd. Roedd y rhain yn cynnwys FBINs a chytundebau cau'n wirfoddol mewn un awdurdod lleol, a hysbysiad cadw a gyflwynwyd mewn perthynas â bwyd anifeiliaid wedi'i fewnforio mewn awdurdod lleol arall. Ym mhob achos, roedd y defnydd o'r sancsiynau gorfodi hyn yn briodol o dan yr amgylchiadau, ac yn gyffredinol roedd y sancsiynau gorfodi hyn yn cael eu cynnal yn unol â'r gofynion.

3.7.11 Nid oedd unrhyw gamau gorfodi ffurfiol wedi'u cymryd yn y ddau ranbarth arall.

**Argymhelliad 8**

Dylai awdurdodau lleol adolygu a diwygio polisïau gorfodi cofnodedig, yn unol â gofynion y Codau Ymarfer perthnasol a chanllawiau swyddogol eraill. [Y Safon – 15.1/Erthygl 12, Rheoliad (UE) 2017/625]

**Argymhelliad 9**

Dylai awdurdodau lleol sefydlu, adolygu, diwygio (yn ôl yr angen) a gweithredu gweithdrefnau cofnodedig ar gyfer camau dilynol a chamau gorfodi yn unol â'r Codau Ymarfer perthnasol a chanllawiau swyddogol. [Y Safon – 15.2/Erthyglau 5 a 12, Rheoliad (UE) 2017/625]

## 3.8 Monitro Mewnol

3.8.1 Rhaid i awdurdodau lleol sicrhau bod y rheolaethau swyddogol yn cael eu cyflawni i safon gyson uchel, a bod y rhaglen rheolaethau a gynllunnir yn cael ei chynnal.

3.8.2 Mae RLFOs yn ymgymryd â gwaith monitro meintiol mewnol y rhaglen gweithredu bwyd anifeiliaid. Maent yn darparu adroddiadau chwarterol i'r ASB yng Nghymru ac yn manylu ar y cynnydd wrth gyflawni'r nifer targed o arolygiadau a nodir yn y rhaglen waith bwyd anifeiliaid. Defnyddir yr wybodaeth hon i bennu taliadau am y gwaith.

3.8.3 Rhaid i awdurdodau lleol gynnal gweithdrefnau cofnodedig i fonitro hynt y rhaglen o reolaethau swyddogol a gynllunnir, a rhaid iddynt fonitro ansawdd a chysondeb y rheolaethau a gyflawnir gan swyddogion awdurdodedig er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu cyflawni mewn ffordd gymwys. Rhaid i'r gweithdrefnau gynnwys y camau i'w cymryd i fynd i'r afael ag unrhyw berfformiad nad yw'n cyrraedd y safonau disgwyliedig. Gellir gweld pa fesurau i'w hasesu wrth gynnal gwaith monitro mewnol yn y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd Anifeiliaid.

3.8.4 Mewn un rhanbarth, roedd gweithdrefn gofnodedig ar gyfer cynnal gwiriadau monitro mewnol ar ansawdd y gwasanaeth a ddarperir wedi'i datblygu ar lefel ranbarthol. Mewn rhanbarth arall, roedd gweithdrefn fonitro fewnol wedi'i drafftio ond heb ei rhoi ar waith eto. Mewn un rhanbarth, roedd o leiaf un awdurdod lleol wedi datblygu gweithdrefnau lleol ar gyfer gwaith monitro mewnol. Yn y rhanbarth arall, nid oedd gweithdrefn fonitro fewnol gofnodedig.

3.8.5 Er bod rhai o'r gweithdrefnau'n nodi'r bobl sy'n gyfrifol am gyflawni'r gwaith monitro mewnol, yn pennu amlder a nifer y gwiriadau ar ymyriadau i'w cynnal ac yn cynnwys arolygiadau dan oruchwyliaeth i fonitro cymhwysedd swyddogion awdurdodedig, roedd y gwiriadau penodedig yn canolbwyntio'n bennaf ar arolygiadau a gweithdrefnau a fyddai'n elwa ar y canlynol:

- cynnwys gwiriadau ar fathau eraill o ymyriadau a gweithgareddau rheoli bwyd anifeiliaid
- nodi cwmpas, maint ac amlder y gweithgarwch monitro mewnol yn llawn
- defnyddio ffurflenni safonol, er mwyn sicrhau bod asesiadau manylach yn cael eu cynnal.

3.8.6 Roedd yr archwilwyr yn gallu cadarnhau bod rhywfaint o waith monitro ansoddol wedi'i gynnal ym mhob rhanbarth. Roedd y gwaith hwn yn cynnwys cymysgedd o wiriadau gan y RLFO a gwiriadau lleol i ategu'r hyn sy'n cael ei wneud ar lefel ranbarthol. Roedd tystiolaeth i ddangos hefyd fod y RLFO yn cysgodi swyddogion i sicrhau eu bod yn gymwys, yn gyson, yn defnyddio'r ffurflenni cywir, a bod y cyngor a roddwyd i fusnesau yn gywir ac yn ffeithiol. Roedd enghreifftiau pellach yn cynnwys cyfarfodydd gyda swyddogion i drafod arolygiadau, cwynion a hyfforddiant, arolygiadau dan oruchwyliaeth a gwirio cofnodion ffeiliau.

3.8.7 Roedd y meysydd i'w gwella o ran gwiriadau monitro mewnol ansoddol yn cynnwys:

- gwiriadau i sicrhau cysondeb
- gwiriadau i fonitro cymhwysedd swyddogion
- cofnodi canlyniadau gwiriadau o'r fath yn gyson.

**Argymhelliad 10**

(a) Rhaid dogfennu pob gweithdrefn ar gyfer gwaith monitro mewnol gan gynnwys nodi'r cofnodion sydd i'w cwblhau. Dylai gweithdrefnau monitro mewnol cofnodedig gynnwys, lle bo hynny'n briodol ar lefel ranbarthol, ar lefel leol neu'r ddau, y gwiriadau canlynol:

- Sicrhau bod sgoriau risg y gronfa ddata (gan gynnwys cyfanswm y sgoriau) a'r dyddiadau ymyrryd ar y gorwel yn gywir. Dylai gwiriadau cronfeydd data gynnwys, lle bo hynny'n berthnasol, sicrhau bod sgoriau risg sydd wedi'u diwygio i adlewyrchu statws cydnabyddiaeth ar sail perfformiad a bod adroddiadau eithrio wedi'u llunio lle y bo angen.
- Sicrhau bod yr wybodaeth a gedwir ar gronfeydd data a ffeiliau sefydliadau yn gyson; gan gynnwys y swyddog cywir a gynhaliodd bob ymyriad.
- Archwiliad o ffeiliau sy'n cynnwys cwynion neu geisiadau gwasanaeth am fwyd anifeiliaid neu sefydliadau bwyd anifeiliaid.
- Archwiliad o ffeiliau sy'n cynnwys gweithgarwch samplu, yn enwedig y rhai sy'n ymwneud â samplau anfoddhaol.
- Archwiliad o ffeiliau sy'n cynnwys ymatebion i ddigwyddiadau.
- Archwiliad o ffeiliau sy'n cynnwys camau gorfodi ffurfiol.

[Y Safon – 19.1/Erthyglau 5 a 12, Rheoliad (UE) 2017/625]

(b) Dylid gweithredu gweithdrefnau monitro mewnol yn llawn, a dylai awdurdodau lleol gofnodi canlyniad unrhyw wiriad a'r camau a gymerwyd mewn perthynas ag unrhyw anghysondeb a nodwyd. [Y Safonau – 19.1 a 19.3/Erthygl 12, Rheoliad (UE) 2017/625]

## 4.0 Casgliadau

4.1 Dangosodd y rhaglen archwilio fod gwelliant sylweddol yn y ffordd y caiff rheolaethau swyddogol ar fwyd anifeiliaid eu cynnal yng Nghymru ers cyflwyno'r model cyflawni bwyd anifeiliaid newydd ym mis Ebrill 2015. Nodwyd tri maes o arferion da ac mae'r rhain wedi'u hamlygu. Aseswyd bod pob un o'r pedwar rhanbarth a archwiliwyd yn rhoi sicrwydd cymedrol bod gofynion gweithredu gwasanaethau'n cael eu bodloni. Fodd bynnag, mae angen gwelliannau pellach er mwyn dangos bod y gwasanaeth yn cael ei ddarparu'n gwbl effeithiol.

4.2 Roedd angen gwella'r broses o gyflwyno ceisiadau am gyllid er mwyn sicrhau bod rheolaethau swyddogol a gyflawnir mewn sefydliadau unigol yn cael eu cyfrif yn effeithiol.

4.3 Nododd yr archwiliad anghysondebau yn yr ymrwymiad gweithredol i weithio'n rhanbarthol gydag awdurdodau lleol. Roedd hyn yn cael effaith ar ansawdd gweithgareddau rheolaethau swyddogol. Roedd y rhan fwyaf o ranbarthau wedi galluogi swyddogion i weithredu ar draws ffiniau awdurdodau lleol. Fodd bynnag, nid oedd pob un wedi gwneud hynny, gan greu rhwystr i weithio rhanbarthol. At hynny, roedd y ffaith bod nifer fawr o swyddogion rhan amser yn cyfrannu at ddarparu gwasanaethau yn golygu mai dim ond cyfran fach o amser swyddogion a oedd yn cael ei threulio yn ymarfer rheolaethau swyddogol ar fwyd anifeiliaid o fewn rhanbarthau. Roedd hyn yn cyflwyno her ymarferol wrth sicrhau bod gan swyddogion ddigon o brofiad i allu gweithredu rheolaethau swyddogol yn gyson.

4.4 Gellid gwella cysondeb hefyd mewn perthynas â pholisïau, gweithdrefnau a dogfennau gweithio o fewn rhanbarthau, a lle bo'n briodol, ledled Cymru. Cydnabyddir bod ymdrechion eisoes ar y gweill i sicrhau'r gwelliannau pellach hyn yng Nghymru.

4.5 Bydd buddsoddi mewn ehangu prosesau monitro mewnol y tu hwnt i arolygiadau, er mwyn sicrhau bod gweithgareddau swyddogion mewn perthynas â chynnal rheolaethau swyddogol ar fwyd anifeiliaid yn cael eu hystyried yn rheolaidd, yn aml, yn fanwl ac yn barhaus ar lefel ranbarthol, yn ysgogi gwelliannau mewn cysondeb ac yn cynyddu sicrwydd.

4.6 Anogir pob awdurdod lleol ym mhob rhanbarth i drafod canlyniadau'r archwiliad a chydweithio i sicrhau yr eir i'r afael â'r argymhellion yn unol â'u cynlluniau gweithredu rhanbarthol.

## 5.0 Crynodeb o'r Argymhellion

5.1 Nododd yr archwiliad â ffocws ar y ffordd y mae awdurdodau lleol yn gweithredu gwasanaethau gorfodi cyfraith bwyd anifeiliaid yn rhanbarthol yng Nghymru yr argymhellion canlynol:

**Argymhelliad 1**

Rhaid i awdurdodau lleol sicrhau eu bod yn gallu nodi'r union sefydliadau sydd wedi'u cynnwys yn yr wybodaeth am weithgarwch bwyd anifeiliaid, a hynny drwy gadw cofnodion priodol. [Y Safon 6.3/Erthyglau 5(1(a)&(b), 10(2), a 13(1) o Reoliad (UE) 2017/625]

Dylai'r ASB sicrhau bod dogfennau Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn cael eu diwygio i egluro'r gofyniad i awdurdodau lleol gadw cofnodion o'r fath.

**Argymhelliad 2**

(a) Rhaid i awdurdodau lleol wella dulliau cydweithredu rhanbarthol i sicrhau bod staff cymwys, profiadol sydd â'r cymwysterau addas ac sydd wedi'u hawdurdodi i weithredu ym mhob rhanbarth yn cyflawni rheolaethau swyddogol. Mae hyn er mwyn sicrhau y gellir cynnal rheolaethau swyddogol a dyletswyddau rheoli'n effeithlon ac yn effeithiol. [Erthygl 5(1)(e), Rheoliad (UE) 2017/625]

(b) Dylai awdurdodau lleol sefydlu, adolygu, diwygio (yn ôl y gofyn) a gweithredu gweithdrefn gofnodedig ar gyfer awdurdodi swyddogion yn seiliedig ar eu cymhwysedd ac yn unol â'r Codau Ymarfer perthnasol ac unrhyw ganllawiau a gyhoeddir yn ganolog. [Y Safon 5.1/Erthyglau 5 a 12, Rheoliad (UE) 2017/625]

(c) Dylai awdurdodau adolygu a diweddaru'r dogfennau awdurdodi i sicrhau eu bod yn cynnwys cyfeiriadau at bob deddfwriaeth berthnasol a chyfredol. Dylai lefel awdurdodi swyddogion fod yn gyson â'u cymwysterau, eu hyfforddiant, eu profiad a'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd Anifeiliaid. Pan nad yw tystysgrifau awdurdodi yn cynnig gwybodaeth am lefel yr awdurdodiad, ond bod gwybodaeth o'r fath yn cael ei darparu mewn asesiadau cymhwysedd priodol, dylid cysylltu'r dogfennau hyn ag un offeryn awdurdodi cyffredinol. [Y Safonau 5.3/Erthyglau 5 a 12, Rheoliad (UE) 2017/625]

(d) Dylai awdurdodau lleol gadw cofnodion am gymwysterau, hyfforddiant a phrofiad pob swyddog awdurdodedig. Rhaid i awdurdodau sicrhau bod swyddogion bwyd anifeiliaid yn cael o leiaf 10 awr o hyfforddiant datblygiad proffesiynol parhaus y flwyddyn. [Y Safon 5.4 a 5.5/Erthyglau 5 a 12, Rheoliad (UE) 2017/625]

**Argymhelliad 3**

(a) Bydd awdurdodau lleol yn sefydlu, yn cynnal ac yn diwygio (yn ôl yr angen) weithdrefnau cofnodedig ar gyfer yr ystod o ymyriadau/arolygiadau a gynhelir

ganddynt. Dylai hyn gynnwys sicrhau bod gweithredwyr busnesau bwyd anifeiliaid, sy’n cynnal safonau uchel o gydymffurfio â chyfraith bwyd anifeiliaid, yn elwa ar y cynllun cydnabyddiaeth ar sail perfformiad. [Y Safon 7.4/Erthyglau 5 a 12, Rheoliad (UE) 2017/625]

(b) Rhaid i awdurdodau lleol gynnal ymyriadau/arolygiadau yn unol â’r ddeddfwriaeth berthnasol, y Codau Ymarfer a’r canllawiau a gyhoeddir yn ganolog, ac yn unol â pholisïau a gweithdrefnau’r awdurdod. Dylai hyn gynnwys sicrhau y rhoddir gwybod i’r ASB pan fydd busnes bwyd anifeiliaid yn colli cydnabyddiaeth ar sail perfformiad a’i fod yn aelod o gynllun sicrwydd cymeradwy. Dylid gwneud hyn cyn gynted â phosibl gan ddefnyddio’r ffurflen adroddiad eithrio rhag cydnabyddiaeth ar sail perfformiad. [Y Safon 7.2/Erthyglau 12 ac 14, Rheoliad (UE) 2017/625]

(c) Dylai awdurdodau lleol asesu cydymffurfiaeth sefydliadau a systemau yn eu hardal â’r safonau sydd wedi’u pennu gan y gyfraith. [Y Safon 7.3/Erthygl 14, Rheoliad (UE) 2017/625]

(d) Dylai awdurdodau lleol gadw cofnodion cyfredol a chywir ar ffurf adferadwy ar gyfer pob sefydliad bwyd anifeiliaid yn eu hardal, yn unol â Chodau Ymarfer a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog. Bydd y cofnodion hyn yn cynnwys penderfyniadau ar gydymffurfiaeth â gofynion cyfreithiol a wneir gan y swyddog awdurdodedig, a manylion y camau a gymerwyd lle nodwyd achos o fethu â chydymffurfio. Dylai’r awdurdod hefyd gofnodi, gyda rhesymau, unrhyw achosion o wyro oddi wrth weithdrefnau sefydledig. [Y Safon 16.1/Erthygl 13, Rheoliad (UE) 2017/625]

**Argymhelliad 4**

Dylai awdurdodau lleol sefydlu, cynnal a gweithredu polisi samplu cofnodedig a fydd yn unol ag unrhyw ganllawiau a gyhoeddir yn ganolog a Chodau Ymarfer perthnasol. Bydd hefyd yn cynnwys cyfeiriad at ei ddull o ran ymdrin ag unrhyw raglen samplu genedlaethol berthnasol a gydlynir yn ganolog gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd. [Y Safon – 12.4/Erthyglau 5 a 12, Rheoliad (UE) 2017/625]

**Argymhelliad 5**

Rhaid i awdurdodau lleol sefydlu, adolygu, diwygio (yn ôl y gofyn) a gweithredu gweithdrefnau cofnodedig ar gyfer caffael neu brynu samplau, parhad tystiolaeth ac atal dirywiad neu ddifrod i samplau o dan ei reolaeth yn unol â'r Codau Ymarfer perthnasol a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog. [Y Safon – 12.5/Erthyglau 5 a 12, Rheoliad (UE) 2017/625]

**Argymhelliad 6**

Dylai awdurdodau lleol gymryd camau priodol pan ystyrir bod canlyniadau sampl yn anfoddhaol. [Y Safon – 12.7/Erthyglau 12, 13 a 138, Rheoliad (EU) 2017/625]

**Argymhelliad 7**

Rhaid i awdurdodau lleol sefydlu, adolygu, diwygio (yn ôl yr angen) a gweithredu gweithdrefn gofnodedig ar gyfer cychwyn ac ymateb i rybuddion bwyd anifeiliaid, yn unol â'r Codau Ymarfer perthnasol. [Y Safon – 14.1/Erthyglau 5 a 12, Rheoliad (UE) 2017/625]

**Argymhelliad 8**

Dylai awdurdodau lleol adolygu a diwygio polisïau gorfodi cofnodedig, yn unol â gofynion y Codau Ymarfer perthnasol a chanllawiau swyddogol eraill. [Y Safon – 15.1/Erthygl 12, Rheoliad (UE) 2017/625]

**Argymhelliad 9**

Dylai awdurdodau lleol sefydlu, adolygu, diwygio (yn ôl yr angen) a gweithredu gweithdrefnau cofnodedig ar gyfer camau dilynol a chamau gorfodi yn unol â'r Codau Ymarfer perthnasol a chanllawiau swyddogol. [Y Safon – 15.2/Erthyglau 5 a 12, Rheoliad (UE) 2017/625]

**Argymhelliad 10**

(a) Rhaid dogfennu pob gweithdrefn ar gyfer monitro mewnol gan gynnwys pennu'r cofnodion i'w cwblhau. Dylai gweithdrefnau monitro mewnol cofnodedig gynnwys, lle bo hynny'n briodol ar lefel ranbarthol, ar lefel leol neu'r ddau, y gwiriadau canlynol:

- Sicrhau bod sgoriau risg y gronfa ddata (gan gynnwys cyfanswm y sgoriau) a'r dyddiadau ymyrryd ar y gorwel yn gywir. Dylai gwiriadau cronfeydd data gynnwys, lle bo hynny'n berthnasol, sicrhau bod sgoriau risg wedi'u diwygio i adlewyrchu'r statws o ran cydnabyddiaeth ar sail perfformiad a bod adroddiad eithrio wedi'i lunio lle bo angen.
- Sicrhau bod yr wybodaeth a gedwir ar gronfeydd data a ffeiliau sefydliadau yn gyson; gan gynnwys y swyddog cywir a gynhaliodd bob ymyriad.
- Archwiliad o ffeiliau sy'n cynnwys cwynion neu geisiadau gwasanaeth am fwyd anifeiliaid neu sefydliadau bwyd anifeiliaid.
- Archwiliad o ffeiliau sy'n cynnwys gweithgarwch samplu, yn enwedig y rhai sy'n ymwneud â samplau anfoddhaol.
- Archwiliad o ffeiliau sy'n cynnwys ymatebion i ddigwyddiadau.
- Archwiliad o ffeiliau sy'n cynnwys camau gorfodi ffurfiol.

[Y Safon – 19.1/Erthyglau 5 a 12, Rheoliad (UE) 2017/625]

(b) Dylid gweithredu gweithdrefnau monitro mewnol yn llawn, a dylai awdurdodau lleol gofnodi canlyniad unrhyw wiriad a'r camau a gymerwyd mewn perthynas ag unrhyw anghysondeb a nodwyd. [Y Safonau – 19.1 a 19.3/Erthygl 12, Rheoliad (UE) 2017/625]

| | |
|---|---|
| **Archwilwyr y Rhaglen:** | Craig Sewell<br>Steve Adie<br>Jamie McMeeking |
| **Adran:** | Cymru, Tîm Diogelu Defnyddwyr<br>Asiantaeth Safonau Bwyd<br>Llawr 11, Tŷ Southgate,<br>Wood Street, Caerdydd, CF10 1EW |

## Atodiad A: Rhestr termau

| | |
|---|---|
| Archwilio | Ymarfer systematig ac annibynnol i bennu a yw'r gweithgareddau a'r canlyniadau sy'n deillio ohonynt yn cydymffurfio â'r trefniadau a gynlluniwyd, a yw'r trefniadau hyn yn cael eu rhoi ar waith yn effeithiol ac a ydynt yn addas i gyflawni'r amcanion. |
| Arolygiad | Mae arolygiad yn rhan o ymchwiliad o unrhyw agwedd ar fwyd anifeiliaid er mwyn cadarnhau bod yr agwedd honno'n cydymffurfio â gofynion cyfreithiol y gyfraith bwyd anifeiliaid a bwyd a'r rheolau iechyd a lles anifeiliaid. |
| Awdurdod Cartref | Bydd canolfan gwneud penderfyniadau berthnasol y fenter wedi'i lleoli yn ardal yr awdurdod hwn. |
| Awdurdod Tarddu | Bydd menter ddatganoledig yn cynhyrchu nwyddau a gwasanaethau yn ardal yr awdurdod hwn. |
| Awdurdodau lleol | Mae i'r term hwn yr ystyr a nodir yn Adran 270 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru wedi'u rhannu'n chwe rhanbarth bwyd anifeiliaid. |
| Busnes Bwyd Anifeiliaid | Unrhyw fenter, p'un a yw'n fenter er elw ai peidio a ph'un a yw'n fenter gyhoeddus neu breifat, sy'n cyflawni unrhyw weithred i gynhyrchu, gweithgynhyrchu, prosesu, storio, cludo neu ddosbarthu bwyd anifeiliaid, gan gynnwys unrhyw gynhyrchwr sy'n cynhyrchu, yn prosesu neu'n storio bwyd anifeiliaid i |

| | |
|---|---|
| | fwydo anifeiliaid ar ei ddaliad ei hun. (Diffiniad statudol) |
| Busnes heb sgôr | Busnes bwyd anifeiliaid wedi’i nodi gan awdurdod fel un sydd heb gael asesiad sgorio risg rheoleiddiol. |
| Bwyd Anifeiliaid | Yn unol â’r diffiniad yn Erthygl 3.4 o Reoliad 178/2002, mae’n cyfeirio at unrhyw sylwedd neu gynnyrch, gan gynnwys ychwanegion, boed yn sylwedd wedi’i brosesu, ei brosesu’n rhannol neu heb ei brosesu, y bwriedir ei fwydo drwy’r geg i anifeiliaid sy’n cynhyrchu bwyd neu anifeiliaid nad ydynt yn cynhyrchu bwyd. |
| Canllawiau Ymarfer Cyfraith Bwyd Anifeiliaid (Cymru) | Mae’r Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) wedi cyhoeddi’r Canllawiau Ymarfer hyn i gynorthwyo Awdurdodau Cymwys wrth gyflawni eu dyletswyddau statudol i orfodi’r gyfraith bwyd anifeiliaid berthnasol. Mae’r canllawiau hyn yn anstatudol, yn ategu’r Cod Ymarfer statudol, ac yn rhoi cyngor cyffredinol ar y dull o orfodi’r gyfraith lle gallai fod ei fwriad yn aneglur. |
| Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd Anifeiliaid (Cymru) | Cyhoeddir y Cod Ymarfer hwn o dan reoliad 6 o’r Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd. Mae'r Cod yn berthnasol i awdurdodau lleol (Awdurdodau Cymwys) sy’n gyfrifol am weithredu rheolaethau swyddogol ar fwyd anifeiliaid. O dan y ddeddfwriaeth berthnasol ym maes rheolaethau swyddogol ar fwyd anifeiliaid a bwyd, mae’n ofynnol i’r Awdurdodau Cymwys roi sylw i’r Cod hwn pan fyddant yn cyflawni’u dyletswyddau. |
| Cofrestru | Proses gyfreithiol sy’n mynnu bod pob gweithredwr busnes bwyd anifeiliaid yn |

| | |
|---|---|
| | hysbysu’r awdurdod lleol priodol pan fydd yn sefydlu busnes bwyd anifeiliaid. |
| Cydnabyddiaeth ar Sail Perfformiad | Pan fyddant yn penderfynu pa mor aml i gynnal rheolaethau swyddogol, gall yr Awdurdodau Cymwys gydnabod safonau gweithredwyr busnesau bwyd anifeiliaid sy’n dangos eu bod yn cynnal safonau uchel o ran diogelwch bwyd anifeiliaid drwy gymryd camau priodol i gydymffurfio â’r gyfraith. Felly, mae gweithredwyr o’r fath yn ennill cydnabyddiaeth ar sail perfformiad. |
| Cytundeb Fframwaith | Mae’r Cytundeb Fframwaith yn nodi’r hyn y mae’r Asiantaeth Safonau Bwyd yn ei ddisgwyl gan awdurdodau lleol wrth iddynt weithredu rheolaethau swyddogol mewn perthynas â’r gyfraith bwyd anifeiliaid a bwyd. Mae wedi’i ddatblygu mewn ymgynghoriad â’r awdurdodau lleol eu hunain, y cymdeithasau llywodraeth leol a’r cyrff proffesiynol. |
| Dadansoddi Peryglon a Phwyntiau Rheoli Critigol (HACCP) | Rhaid i weithredwyr busnesau bwyd anifeiliaid sy’n cynnal gweithrediadau, ac eithrio'r rhai y cyfeirir atynt yn Erthygl 5(1) o Reoliad (EC) Rhif 183/2005 sefydlu, gweithredu a chynnal gweithdrefn neu weithdrefnau ysgrifenedig parhaol yn seiliedig ar egwyddorion HACCP. |
| Dadansoddwr Amaethyddol | Dadansoddwr amaethyddol a benodir o dan adran 67 o Ddeddf Amaethyddiaeth 1970 ac, oni bai bod y cyd-destun yn mynnu fel arall, mae’n cynnwys dirprwy ddadansoddwr amaethyddol a benodir ar gyfer yr un ardal. |

| | |
|---|---|
| Datblygiad Proffesiynol Parhaus | Y dull a ddefnyddir gan aelodau o broffesiwn i barhau i wella ac ehangu'u gwybodaeth a'u sgiliau ac i ddatblygu'r rhinweddau sydd eu hangen arnynt yn eu bywydau proffesiynol. |
| Egwyddor yr Awdurdod Cartref | Bydd awdurdod lleol sy'n gweithredu fel Awdurdod Cartref neu Awdurdod Tarddu yn rhoi pwyslais arbennig ar gyfreithlondeb nwyddau a gwasanaethau sy'n tarddu o'i ardal. Ei nod yw atal troseddau trwy gynnig cyngor ac arweiniad er mwyn cynnal safonau uchel o ran diogelu'r cyhoedd, a hynny am y gost leiaf. |
| Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir (SRS) | Mae Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir (SRS) yn wasanaeth cydweithredol wedi'i sefydlu rhwng Cynghorau Pen-y-bont ar Ogwr, Caerdydd a Bro Morgannwg |
| Gweithredwr Busnes Bwyd Anifeiliaid | Unrhyw berson naturiol neu gyfreithiol sy'n gyfrifol am sicrhau bod gofynion y ddeddfwriaeth berthnasol yn cael eu bodloni yn y busnes bwyd anifeiliaid sy'n cael ei reoli ganddo. (Diffiniad statudol) |
| Gweithwyr Cyfwerth ag Amser Llawn (FTE) | Ffigur sy'n cynrychioli'r rhan honno o amser swyddog unigol sydd ar gael ar gyfer rôl neu gyfres benodol o ddyletswyddau. Mae'n adlewyrchu'r ffaith y gall unigolion weithio rhan amser, neu'r ffaith y gall fod ganddynt gyfrifoldebau eraill o fewn y sefydliad nad ydynt yn ymwneud â bwyd a bwyd anifeiliaid. |
| Gwirio (*Verification*) | Gwirio a yw'r gofynion penodedig wedi'u bodloni drwy archwilio ac ystyried tystiolaeth wrthrychol. |

| | |
|---|---|
| Perygl Bwyd Anifeiliaid | Sylwedd biolegol, cemegol neu ffisegol mewn bwyd anifeiliaid a all effeithio'n andwyol ar iechyd y cyhoedd. |
| Prif Awdurdod | Ar ôl iddo gael ei enwebu, mae'r Prif Awdurdod yn gyfrifol am gyflawni swyddogaethau statudol penodol a rhaid i'r awdurdodau lleol sy'n rheoleiddio'r busnes wneud hynny yn unol â darpariaethau'r cynllun. |
| Rhanbarth Bwyd Anifeiliaid | Gweithredir rheolaethau swyddogol ar fwyd anifeiliaid ar sail ranbarthol yng Nghymru, gyda'r 22 awdurdod lleol wedi'u rhannu'n chwe rhanbarth. |
| Rheolaethau Swyddogol | Unrhyw fath o fesur rheoli ar gyfer dilysu cydymffurfiaeth â chyfraith bwyd anifeiliaid. |
| Rhybudd Bwyd Anifeiliaid | Y dull a ddefnyddir gan yr ASB i roi gwybod i awdurdodau leol am beryglon bwyd anifeiliaid a'r camau penodol i'w cymryd. |
| Samplu | Cymryd bwyd anifeiliaid neu unrhyw sylwedd arall (gan gynnwys o'r amgylchedd) sy'n berthnasol i'r gwaith cynhyrchu, prosesu a dosbarthu bwyd anifeiliaid neu fwyd neu i iechyd yr anifeiliaid, a hynny er mwyn cadarnhau drwy ddadansoddiad a yw'n cydymffurfio â'r gyfraith bwyd anifeiliaid, y gyfraith bwyd neu'r rheolau iechyd anifeiliaid. |
| Sefydliad | Yng nghyfraith yr UE, diffinnir "sefydliad" ("*establishment*") fel uned o fusnes bwyd anifeiliaid ('*unit of a feed business*'). Nid yw'n golygu'r "safle" ("*premises*") yn unig, ond mae'n uniongyrchol gysylltiedig â'r busnes |

| | |
|---|---|
| | sy'n defnyddio'r safle ("*establishment denotes both premises and the manner in which those premises are being used by the feed business operator*"). |
| Swyddog Arweiniol Rhanbarthol Bwyd Anifeiliaid (RLFO) | Mae'r chwe rhanbarth bwyd anifeiliaid yng Nghymru wedi nodi swyddog arweiniol rhanbarthol bwyd anifeiliaid sy'n gyfrifol am oruchwylio gwaith gweithredu rheolaethau swyddogol ar fwyd anifeiliaid yn ei ardal. Mae Swyddogion Arweiniol Rhanbarthol Bwyd Anifeiliaid yn cwrdd o leiaf unwaith bob chwarter i sicrhau bod dull cyson yn cael ei ddefnyddio ledled Cymru. |
| Swyddog Awdurdodedig | Unigolyn (boed yn un o swyddogion yr Awdurdod Cymwys ai peidio) sydd wedi cael ei awdurdodi gan yr Awdurdod Cymwys, naill ai'n gyffredinol neu'n benodol, i weithredu mewn perthynas â materion sy'n codi o dan y Rheoliadau Hylendid. |
| System sgorio risg bwyd anifeiliaid | Meini prawf asesu risg a ddefnyddir i bennu rhaglenni arolygu cyfraith bwyd anifeiliaid arfaethedig |
| Ymyriad | Dulliau neu dechnegau a ddefnyddir gan awdurdod lleol i gadarnhau bod busnes yn cydymffurfio â chyfraith bwyd anifeiliaid, neu i'w gynorthwyo i wneud hynny. |
| Yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) | Yr ASB yw'r Awdurdod Cymwys Canolog ar gyfer gorfodi cyfraith bwyd anifeiliaid gan awdyrdodau lleol yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Mae hyn yn cynnwys sicrhau y cyflawnir gweithgareddau sy'n ymwneud â hylendid bwyd anifeiliaid, labelu a chyfansoddiad bwyd anifeiliaid, gan |

gynnwys bwyd anifeiliaid anwes. Mae gan yr ASB swyddogaeth statudol i gynnig cyngor a gwybodaeth arbenigol, yn ogystal â dylanwadu ar y ffordd y mae awdurdodau lleol yn gweithredu rheolaethau swyddogol ar fwyd anifeiliaid.

## Atodiad B: Cylch Gorchwyl

**Yr Asiantaeth Safonau Bwyd yng Nghymru**

**Cylch gorchwyl – Archwiliadau â ffocws ar Fwyd Anifeiliaid – Mehefin 2019**

| **1. Amcan(ion) yr Archwiliad** |
|---|
| Rhoi sicrwydd bod y model gweithredu bwyd anifeiliaid rhanbarthol, sydd wedi bod ar waith ers Ebrill 2015 yng Nghymru, wedi'i roi ar waith yn effeithiol gan awdurdodau lleol yn yr ystyr bod rheolaethau swyddogol yn cael eu gweithredu yn unol â'r Cytundeb Fframwaith, Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd Anifeiliaid (Cymru), Canllawiau Ymarfer Cyfraith Bwyd Anifeiliaid (Cymru), a'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth a deddfwriaeth, er mwyn diogelu iechyd anifeiliaid ac iechyd y cyhoedd. |

**2. Risg(iau) Allweddol a Chwmpas yr Archwiliad**

**Risg(iau) allweddol:** Nid yw'r model gweithredu chwe rhanbarth ar gyfer gorfodi cyfraith bwyd anifeiliaid yng Nghymru wedi bod yn effeithiol wrth weithredu rheolaethau swyddogol ar fwyd anifeiliaid mewn modd amserol, priodol, cymesur a chyson gan arwain at fethu â sicrhau cydymffurfiaeth â chyfraith bwyd anifeiliaid a allai effeithio'n niweidiol ar iechyd a lles anifeiliaid a'r gadwyn fwyd ddynol. Gallai hyn effeithio'n negyddol ar enw da'r awdurdod lleol a'r ASB yn ogystal â thanseilio hyder defnyddwyr yn y diwydiant bwyd a bwyd anifeiliaid

**Cwmpas:** Bydd y rhaglen archwilio yn cynnwys pob un o'r chwe rhanbarth yng Nghymru a bydd yn canolbwyntio ar y risgiau sy'n gysylltiedig â'r meysydd rheolaethau swyddogol canlynol (**Pan fydd gan yr ASB y cyfryw wybodaeth eisoes, ni ofynnir amdani gan awdurdodau lleol**):

1. **Cynllunio, darparu ac adolygu gwasanaethau bwyd anifeiliaid, yn cynnwys:**

   i. Gweithredu'r rhwymedigaethau rhanbarthol a lleol yn unol â'r cynllun gwasanaeth blynyddol
   ii. Effeithiolrwydd o ran sut mae awdurdodau lleol yn gweithredu ac yn monitro'r cynllun cydnabyddiaeth ar sail perfformiad ar gyfer sefydliadau bwyd anifeiliaid sy'n aelodau o gynllun sicrwydd cymeradwy
   iii. Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar gyfer cyflenwi bwyd anifeiliaid rhanbarthol
   iv. Adolygu darpariaeth leol yn erbyn y cynllun gwasanaeth

2. **Rôl RLFOs gan gyfeirio at:**

   i. Drefniadau monitro gwasanaethau bwyd anifeiliaid (monitro mewnol)
   ii. Cysondeb wrth weithredu rheolaethau swyddogol (monitro mewnol)
   iii. Hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

iv. Cysylltiadau a chyfathrebu â’r Arweinydd Bwyd Anifeiliaid Rhanbarthol, y Panel Amaethyddiaeth Cenedlaethol (NAP) a’r Panel Porthladdoedd Bwyd Anifeiliaid Cenedlaethol (NAFPP) (fel y bo’n briodol)
v. Trefniadau cysylltu ag awdurdodau bwyd anifeiliaid eraill ac asiantaethau eraill sy’n gyfrifol am reolaethau bwyd anifeiliaid, yr ASB, APHA a’r Gyfarwyddiaeth Meddyginiaethau Milfeddygol
vi. Ceisiadau am gyllid ac adrodd

**3. Awdurdodi a chymhwysedd swyddogion gan gynnwys:**

i. Awdurdodi swyddogion
ii. Sut mae awdurdodau lleol yn sicrhau bod swyddogion yn gymwys
iii. Gweithdrefnau

**4. Ymyriadau, gan gynnwys:**

i. Gweithdrefnau ymyrryd
ii. Atgyfeiriadau at awdurdodau eraill
iii. Bwyd anifeiliaid wedi’i fewnforio
iv. Data diweddaraf ar ymyriadau
v. Cofnodion ac adroddiadau asesu
vi. Ymweliadau gwirio a chyfweliadau â staff
vii. Pa mor briodol yw’r camau gweithredu dilynol, gan gynnwys cadw at bolisïau a gweithdrefnau gorfodi

**5. Cronfeydd data i gynnwys:**

i. Cywirdeb y data
ii. Nifer y safleoedd bwyd anifeiliaid
iii. Monitro mewnol
iv. Gweithdrefnau
v. Ffurflenni System Gwyliadwriaeth Bwyd y DU (UKFSS)
vi. Ffurflenni monitro chwarterol
vii. Ffurflenni monitro bwyd anifeiliaid blynyddol yr ASB
viii. Rhestr flynyddol o sefydliadau bwyd anifeiliaid a gofrestrwyd ac a gymeradwywyd.

**6. Digwyddiadau bwyd anifeiliaid i gynnwys:**

i. Sut yr ymchwiliwyd iddynt/y gweithdrefnau
ii. Camau gweithredu digwyddiadau bwyd anifeiliaid
iii. Cyfeiriadau/cysylltu â Phrif Awdurdodau neu Awdurdodau Cartref

**7. Samplu i gynnwys:**

i. Ffeiliau/cofnodion samplu unigol
ii. Nifer y samplau a gymerwyd yn unol â rhaglen samplu
iii. Polisïau/gweithdrefnau
iv. Cyfeiriadau/cysylltu â Phrif Awdurdodau neu Awdurdodau Cartref

**3. Meini Prawf Cyfeirnodau'r Archwiliad**

Blaenoriaethau Gorfodi Cyfraith Bwyd Anifeiliaid Cenedlaethol 2019-20

Cytundeb Fframwaith

Cod Ymarfer Gorfodi Cyfraith Bwyd Anifeiliaid (Cymru)

Canllawiau Ymarfer Cyfraith Bwyd Anifeiliaid (Cymru)

Memoranda Cyd-ddealltwriaeth Rhanbarthol ar gyfer Gorfodi Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid yng Nghymru

Deddf Amaethyddiaeth 1970

Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Hylendid, Samplu ac ati a Gorfodi) (Cymru) 2016

Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Cyfansoddiad, Marchnata a Defnyddio) (Cymru) 2016

Rheoliadau Bwyd a Bwyd Anifeiliaid Swyddogol (Cymru) 2009

Rheoliadau Organebau a Addaswyd yn Enetig (Olrhain a Labelu) (Cymru) 2005

Rheoliadau Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy (Cymru) 2018

Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Gorfodi) (Cymru) 2014

Rheoliad (CE) Rhif 852/2004 ar hylendid bwydydd

Rheoliad (CE) Rhif 669/2009 yn ystyried y lefel uwch o reolaethau swyddogol ar fewnforion bwyd a bwyd anifeiliaid penodol nad ydynt yn dod o anifeiliaid

Rheoliad (CE) Rhif 178/2002 sy'n pennu egwyddorion cyffredinol a gofynion cyfraith bwyd, sy'n sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau ynghylch materion yn ymwneud â diogelwch bwyd

Rheoliad (CE) Rhif 882/2004 ar reolaethau swyddogol a gyflawnir i sicrhau cydymffurfiaeth â chyfraith bwyd anifeiliaid a bwyd, rheolau iechyd anifeiliaid a rheolau lles anifeiliaid

Rheoliad (CE) Rhif 183/2005 ar hylendid bwyd anifeiliaid

Rheoliad (CE) Rhif 767/2009 ar roi bwyd anifeiliaid ar y farchnad a'i ddefnyddio

Rheoliad (CE) Rhif 1830/2003 ar olrhain a labelu organebau a addaswyd yn enetig ac olrhain bwyd a chynhyrchion bwyd anifeiliaid a gynhyrchir o organebau a addaswyd yn enetig ac sy'n diwygio Cyfarwyddeb 2001/18

Rheoliad (CE) Rhif 1829/2003 ar fwyd a bwyd anifeiliaid a addaswyd yn enetig

Rheoliad (CE) Rhif 1831/2003 ar ychwanegion i’w defnyddio mewn maeth anifeiliaid

Rheoliad (CE) Rhif 152/2009 sy'n gosod y dulliau samplu a dadansoddi ar gyfer rheolaeth swyddogol bwyd anifeiliaid

Rheoliad (CE) Rhif 1069/2009 sy'n gosod rheolau iechyd mewn cysylltiad â sgil-gynhyrchion anifeiliaid a chynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid na fwriedir i bobl eu bwyta

Rheoliad (CE) Rhif 999/2001 sy'n gosod rheolau ar gyfer atal, rheoli a chael gwared ar enseffalopathïau sbyngffurf trosglwyddadwy

Cyfarwyddeb y Comisiwn 98/51/EC

Cyfarwyddeb y Comisiwn 95/69/EC

Adroddiad Cenhadaeth Swyddfa Bwyd a Milfeddygaeth (FVO) 2009 – Rheolaethau Swyddogol ar Ddeddfwriaeth Bwyd Anifeiliaid

Adroddiad Cenhadaeth FVO 2011 – Rheolaethau Swyddogol ar Ddeddfwriaeth Bwyd Anifeiliaid

Gwneud i Bob Arolygiad Gyfrif (Awst 2011)

Gorfodi Cyfraith Bwyd Anifeiliaid yn Effeithiol (Rhagfyr 2012)

Canllawiau NTS a NAP/NAFPP a roddwyd i awdurdodau lleol

## Atodiad C: Methodoleg

Cynhaliwyd yr archwiliad gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau a methodolegau, fel a ganlyn:

**(1) Archwilio polisïau a gweithdrefnau awdurdodau lleol**

Archwiliwyd y polisïau, y gweithdrefnau a'r dogfennau canlynol mewn awdurdodau lleol i lywio'r archwiliad:

• Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar gyfer gweithredu rheolaethau swyddogol ar fwyd anifeiliaid yng Nghymru

• Cynlluniau/adroddiadau i aelodau ar wasanaethau gorfodi cyfraith bwyd anifeiliaid

• Dulliau awdurdodi swyddogion/gweithdrefnau asesu cymhwysedd

• Gweithdrefnau archwilio bwyd anifeiliaid, gweithdrefnau ailymweld, gweithdrefnau bwyd anifeiliaid wedi'i fewnforio

• Ffurflenni adrodd busnesau bwyd anifeiliaid, ffurflenni arolygu

• Gweithdrefnau a ffurflenni cofrestru/cymeradwyo sefydliadau busnesau bwyd anifeiliaid

• Polisïau a gweithdrefnau samplu bwyd anifeiliaid

• Polisïau a gweithdrefnau gorfodi bwyd anifeiliaid a hysbysiadau/ffurflenni templed

• Gweithdrefnau a ffurflenni monitro mewnol

• Gweithdrefnau a ffurflenni digwyddiadau bwyd anifeiliaid

• Gweithdrefnau rheoli cronfeydd data sefydliadau bwyd anifeiliaid

**(2) Adolygu cofnodion cronfeydd data awdurdodau lleol**

Cynhaliwyd adolygiad o gofnodion cronfeydd data awdurdodau lleol ar fwyd anifeiliaid i sefydlu'r canlynol (lle bo'n bosibl):

• Sefydliadau bwyd anifeiliaid sy'n hwyr yn cael sgôr a'r rheiny heb sgôr

• Safleoedd dyblyg

• Anghysondebau cyfrifo a ffurfweddu cronfeydd data

• Swyddogion sy'n cynnal archwiliadau bwyd anifeiliaid

• Aelodaeth busnesau bwyd anifeiliaid o gynlluniau bwyd anifeiliaid sicrwydd cymeradwy'r ASB

• Sgoriau risg bwyd anifeiliaid

• Cymhwysedd adroddiadau eithrio

### (3) Adolygiadau o ffeiliau ar y safle

Wrth gynnal ymweliadau archwilio ar y safle, adolygwyd cofnodion ffeiliau canlynol yr awdurdodau lleol (lle bo modd):

- Cofnodion ac adroddiadau archwilio bwyd anifeiliaid ac ailymweld
- Gwiriadau ar fwyd anifeiliaid wedi'i fewnforio
- Cofnodion samplu bwyd anifeiliaid
- Cofnodion digwyddiadau bwyd anifeiliaid
- Hysbysiadau a ffurflenni gorfodi bwyd anifeiliaid
- Awdurdodiadau swyddogion, asesiadau cymhwysedd, cofnodion cymwysterau a hyfforddiant
- Cofnodion monitro mewnol ar gyfer bwyd anifeiliaid

### (4) Cyfweliadau â swyddogion ar y safle

Cynhaliwyd cyfweliadau â swyddogion mewn awdurdodau lleol gyda'r nod o feithrin dealltwriaeth bellach o'r modd y gweithredir trefniadau rheolaethau swyddogol ar fwyd anifeiliaid yr awdurdod yn ymarferol. Caiff unrhyw farn a safbwyntiau a godwyd yn ystod cyfweliadau â'r swyddogion eu cadw'n gyfrinachol ac ni chyfeirir atynt yn uniongyrchol yn yr adroddiad.

### (5) Ymweliadau gwirio ar y safle

Cynhaliwyd ymweliadau gwirio i asesu effeithiolrwydd dulliau asesu a chymhwyso awdurdodau lleol ar gyfer rheolaethau gorfodi bwyd anifeiliaid yn unol â gofynion cyfraith bwyd anifeiliaid. Cynhaliwyd ymweliadau i wirio canfyddiadau'r arolygiad diwethaf ac i bennu i ba raddau yr oedd yr arolygiad yn bodloni gofynion y ddeddfwriaeth berthnasol, y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd Anifeiliaid a chanllawiau swyddogol.

## Atodiad D – Barn Archwilio

| Barn Archwilio – Asesu Sicrwydd | |
|---|---|
| **Sicrwydd** | **Diffiniad** |
| Sylweddol | Mae'r system ar gyfer gweithredu rheolaethau swyddogol yn dangos bod trefniadau'n cael eu rhoi ar waith yn effeithiol, a'r rheiny'n drefniadau a gynlluniwyd, sy'n addas i gyflawni amcanion gofynion a chanllawiau cyfreithiol. |
| Cymedrol | Mae angen gwella'r system ar gyfer gweithredu rheolaethau swyddogol er mwyn dangos yn llawn bod trefniadau'n cael eu rhoi ar waith yn effeithiol, a'r rheiny'n drefniadau a gynlluniwyd, sy'n addas i gyflawni amcanion gofynion a chanllawiau cyfreithiol. |
| Cyfyngedig | Mae angen gwella'r system ar gyfer gweithredu rheolaethau swyddogol yn sylweddol er mwyn dangos yn llawn bod trefniadau'n cael eu rhoi ar waith yn effeithiol, a'r rheiny'n drefniadau a gynlluniwyd, sy'n addas i gyflawni amcanion gofynion a chanllawiau cyfreithiol. |
| Anfoddhaol | Mae angen gwella'r system ar gyfer gweithredu rheolaethau swyddogol yn sylweddol er mwyn dangos yn llawn bod trefniadau'n cael eu rhoi ar waith yn effeithiol, a'r rheiny'n drefniadau a gynlluniwyd, sy'n addas i gyflawni amcanion gofynion a chanllawiau cyfreithiol. |